
# CYNLLUN CREU LLEOEDD TREFFYNNON



creu lleoedd SIRYFFLINT

Roberts Limbrick

chris jones

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

Trawsnewid Trefi Transforming Towns

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government

rl.

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei chreu ar ran:

Cyngor Sir y Fflint

creu lleoedd SIRYFFLINT

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei chreu gan:


Chris Jones
Regeneration

15 Stryd Nevill
Y Fenni
Sir Fynwy
NP7 5AA

chris@chrisjones.studio
T: 01873 880666
M: 07968943084

Roberts Limbrick
Architects

1 Gold Tops
Casnewydd
NP20 4PG

mail@robertslimbrick.com

0333 405 500


chris jones

rl. Roberts Limbrick


Rhif Prosiect: 11357
Cyhoeddwyd: Mai 2025
Fersiwn: v2



Hawlfraint
Ni ellir copïo nac atgynhyrchu cynnwys y ddogfen hon yn llawn na'n rhannol heb ganiatâd ysgrifenedig Cyngor Sir y Fflint.
Mae'r holl gynlluniau wedi cael eu hatgynhyrchu o'r Map Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi. Cedwir hawlfraint y Goron.

# CYNNWYS

**01: Diben**

Beth yw Diben Cynllun Creu Lleoedd.....5

**02: Pam Cynllun?**

Beth yw Creu Lleoedd? . . . . . . . 7

**03: Ein Proses Creu Lleoedd**

Ein Proses Creu Lleoedd . . . . . . . 10

**04: Deall y Lle**

Treffynnon – Deall y Lle.....12
Hanes Treffynnon .....13
Tirwedd a Chefndir Polisi .....15
Proffil Cymunedol ac Economaidd.....36
Cynnig Masnachol ac Eiddo Gwag.....38
Dadansoddiad o Ffryntiad Strydoedd.....43
Crynodeb o 'Give my View'.....44
Y Lle – Lleoliad a Chefndir.....46
Pyrth Cerbydau.....48
Pyrth Cerddwyr.....49
Heriau a Chyfleoedd.....50
Mannau Cyrraedd – Prif Faes Parcio.....52
Mannau Cyrraedd – Gorsaf Fysiau.....54
Mannau Cyrraedd – Maes Parcio Tesco.....56
Y Stryd Fawr.....58
Dadansoddiad SWOT – Lle.....60
Dadansoddiad SWOT – Pobl.....62

**05: Adeiladu ar ei Sylfaen**

Blaenoriaethau/Themâu sy'n dod i'r Amlwg.....65
Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion Strategol.....70
Cyfleoedd Lle a Phobl.....72
Cyfleoedd Lle
Bywiogi a Gwyrddu Canol y Dref.....76
Cysylltiadau i'r Stryd Fawr.....78
Bywiogi'r Stryd Fawr.....80
Dyffryn Maes Glas yng Nghanol y Dref.....81
Llesiant yn Nhreffynnon.....82
Cyfleoedd Pobl
Llesiant yn y Gymuned.....83
Cysylltu Asedau'r Gymuned.....84
Meithrin Mentergarwch.....85
Cymuned Wyrddach.....86
Gweithio mewn Partneriaeth.....87
Gweledigaeth o Lwyddiant.....88
Ffyrdd o Weithio.....94

# 01: DIBEN



## BETH YW DIBEN CYNLLUN CREU LLEOEDD?

Diben y Cynllun Creu Lleoedd hwn yw gosod y fframwaith o ran anghenion, gweledigaeth, dull a chyfleoedd a fydd yn helpu i gynllunio a chyflawni gweithgarwch a buddsoddiad seiliedig ar le yn Nhreffynnon. Er ei fod yn canolbwyntio ar ganol y dref, mae'r Cynllun yn edrych hefyd ar y berthynas ehangach gyda'i chymdogaethau a'i thrigolion a chydag asedau gerllaw o fewn Dyffryn Maes Glas ac asedau cymunedau a strategol allweddol eraill. Mae Treffynnon yn un saith tref ledled y Sir y datblygir Cynllun Creu Lleoedd ar eu cyfer, gan gynnwys Bwcle, Cei Connah, y Fflint, yr Wyddgrug, Queensferry a Shotton.

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn helpu i ddangos a deall angen lleol, ac felly'n rhoi tystiolaeth i sefydliadau cyflawni strategol wrth gysoni gwasanaethau o ddydd i ddydd, yn ogystal â throsoli cyllid grantiau ar gyfer prosiectau adfywio yn y dyfodol. Mae hefyd yn dangos ffyrdd o weithio sy'n pontio partneriaethau strategol-lleol sy'n helpu meithrin datblygu a chyflawni prosiectau ar y cyd, a chynaliadwyedd mwy hirdymor tref fel Treffynnon.



# 02: PAM CYNLLUN?



# BETH YW CREU LLEOEDD?

Dywed Polisi Cynllunio Cymru fod creu lleoedd yn:

*"ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf.*

*Mae creu lleoedd yn ystyried y cyd-destun, swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle datblygiad a'i amgylchedd ehangach. Bydd hyn yn wir am ddatblygiadau mawr sy'n creu lleoedd newydd yn ogystal â datblygiadau bach sy'n cael eu creu o fewn lle ehangach.*

*Ni ddylai creu lleoedd ychwanegu cost ychwanegol at ddatblygiad, ond bydd yn gofyn am feddwl craff, aml-ddimensiwn ac arloesol i'w weithredu a dylid ei ystyried ar y cam cynharaf bosibl. Mae creu lleoedd yn ychwangu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at gynigion datblygu gan arwain at fuddion sy'n mynd y tu hwnt i ffin datblygiad ffiseol ac sy'n ymwreiddio gwydnwch ehangach mewn penderfyniadau cynllunio."*

Mae Canllawiau Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru 2020 yn trafod yr angen am ddull holistig sy'n ystyried lleoedd cyfan yn hytrach na defnydd o ddarnau penodol o dir neu bob datblygad ar ei ben ei hun. Cafodd y cysyniad o greu lleoedd ei ddatblygu mewn ymateb i deimlad o 'nunlle', o unffurfiaeth o fewn yr amgylchedd adeiledig lle mae datblygiad newydd yn brin o hunaniaeth a chymeriad penodol, teimlad o gymuned na chydberchnogaeth. Mae creu lleoedd wedi tyfu mewn pwysigrwydd wrth i'r cysylltiadau ag iechyd a llesiant gael eu harchwilio a'u deall yn fwy trylwyr.

## Sut mae Cynllun o Gymorth i Greu Lleoedd Da?

Er nad Cynllun Creu Lleoedd yw'r unig ateb i reoli newid a rhoi cyfeiriad i dref fel Treffynnon, mae'n bwysig fframio dyheadau hirdymor a hefyd meithrin perthynas rhwng y lle, y bobl, a'r gweithgareddau. Y nod yma yw gwneud y cyfan yn rhywbeth mwy na chyfanswm ei rannau. Mae strategaeth a chynllun hirdymor hefyd yn sicrhau bod materion ymarferol wedi cael eu hystyried a bod cynllun y lle yn gallu cynnwys yr amrediad tebygol o'r dibenion gofynnol yn y pen draw. Mae Cynllun yn ymwneud hefyd â chreu lle ac nid dim ond â dyluniad gan ei fod yn ymwneud â chreu a datblygu profiad mae pobl yn teimlo'n gysurus ynddo a'u bod yn cael eu croesawu iddo.

Dylid datblygu gweithgareddau creu lleoedd hirdymor gan ymgynghori â'r gymuned gan mai hwy yw'r arbenigwyr lleol a all gynnig barn a dealltwriaeth werthfawr o hanes, diwylliant, a swyddogaeth yr ardal, neu unrhyw agwedd sy'n golygu rhywbeth i'r bobl.


## Y Gofynion

Ym mis Mai 2022, fe wnaeth Llywodraeth Cymru hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ledled Cymru ddatblygu Cynlluniau Creu Lleoedd yn unol â chwe egwyddor Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru https://dcfw.org/creulleoedd.


Mae disgwyl i Gynlluniau Creu Lleoedd fod yn rhai y gellir eu cyflawni ac iddynt cael eu hadolygu'n rheolaidd a chynnwys gweledigaeth a rennir ar gyfer pob canol tref trwy broses drylwyr o gyd-drafod ac ymgynghori ag amrywiaeth helaeth o randdeiliaid a fydd yn arwain at y canlynol:

- Adnabod heriau mae pob lle yn eu profi gan gynnwys archwilio ystyriaethau ehangach megis trafnidiaeth, teithio llesol, seilwaith gwyrdd, tai ac iechyd.
- Dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau i ganol y dref a'i berfformiad.
- Sefydlu data llinell sylfaen ar gyfer canol y dref.
- Adnabod ffin glir sy'n diffinio craidd canol y dref yn ogystal ac ymylon y dref.
- Cysoni â chynlluniau lleol a rhanbarthol, strategaethau, a blaenoriaethau eraill.
- Deall materion fel lefel darpariaeth manwerthu a'r potensial ar gyfer ailganolbwyntio at gynnig cryfach / addasu safleoedd canol y dref at ddibenion eraill lle bo'n addas.

Mewn ymateb i gais Llywodraeth Cymru am Gynlluniau Creu Lleoedd, mae Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint wedi datblygu a chytuno ar ddull o gydlynu datblygiad Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer 7 o drefi ar draws y Sir: Bwcle, Cei Connah, Y Fflint, Treffynnon, Yr Wyddgrug, Queensferry a Shotton. Mae amserlen wedi cael ei chytuno gyda Chabinet Cyngor Sir y Fflint i gyflawni'r gwaith ar gyfer 7 Cynllun Creu Lle mewn 3 cham ar wahân, gyda'r cyntaf yn canolbwyntio ar drefi Bwcle, Treffynnon a Shotton yn 2023-24. Dros y 18 mis nesaf, bydd Cynlluniau Creu Lleoedd yn cael eu datblygu ar gyfer trefi yng ngham 2 y rhaglen waith (trefi Cei Connah a Queensferry) a cham 3 (trefi'r Fflint a'r Wyddgrug).





*Llun: Canllaw i Greu Lleoedd*




*Llun: Canllaw i Greu Lleoedd*

# 03: EIN PROSES CREU LLEOEDD



## BETH YW CREU LLEOEDD?

Mae Proses Creu Lleoedd Sir y Fflint wedi mabwysiadu dull o fuddsoddi mewn gwaith desg sydd wedi casglu gwybodaeth gan amryw o arbenigwyr mewn masnach, eiddo, ansawdd amgylcheddol, dadansoddi economaidd-gymdeithasol a chyda pwyslais penodol ar seilwaith gwyrdd. Mae'r Cyngor Sir gyda phartneriaid lleol hefyd wedi arwain at ymgynghori â rhanddeiliaid ac â'r gymuned, gan ddefnyddio cyfuniad o gysylltu wyneb yn wyneb ac yn ddigidol er mwyn sicrhau cael nifer a thrawstoriad digonol o safbwyntiau.

Mae'r dull hwn o ymchwilio ar y cyd i Dreffynnon fel lle wedi cael ei grynhoi'n Gynllun Creu Lleoedd sydd wedi ymateb i anghenion y lle, gan ddangos y ddadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau), themâu allweddol i'w hystyried sy'n arwain at weledigaeth benodol ar gyfer y lle, set o nodau ac amcanion a fframwaith cyfleoedd. Mae'r fframwaith hwn yn rhoi cyfeiriad ar gyfer troi cyfleoedd yn weithredoedd law yn llaw â phartneriaid strategol a lleol yn ymrwymo i gydgyflawni a gweithio mewn partneriaeth.

### Cam 1 – Casglu Gwybodaeth a Data

- Asesiad Masnachol
- Asesiad Ansawdd Amgylcheddol
- Adolygiad Economaidd-Gymdeithasol
- Archwiliad Seilwaith Gwyrdd

### Cam 2 – Gwrando ar Farn y Gymuned a Rhanddeiliaid

- •Ymgynghori â'r Cyhoedd
- Ymgynghori â Rhanddeiliaid
- Ymchwil i Ganfyddiadau o Dreffynnon

### Cam 3 – Addasu Gweledigaeth, Blaenoriaethau a Fframwaith y Cynllun Creu Lleoedd

- Adolygiad Polisi a Strategaeth
- Dadansoddi'r Lle
- Dadansoddi'r Bobl
- SWOT a Themâu
- Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion
- Fframwaith Cyfleoedd
- Gweledigaeth o Lwyddiant
- Ffyrdd o Weithio

# 04: DEALL Y LLE



# TREFFYNNON – DEALL Y LLE


Mae Treffynnon wedi'i leoli yn Sir y Fflint, ar hyd arfordir gogledd Cymru rhwng y Fflint i'r dwyrain a Prestatyn i'r gorllewin. Mae'n ymestyn i'r gogledd i'r Maes Glas, sy'n ardal ddiwydiannol yn bennaf ar lannau afon Dyfrdwy. Mae'r dref yn gymharol hunan-gynhaliol gyda chanol tref, ysgolion ac ysbyty cymunedol.

Mae'r dref yn gorwedd i'r gogledd o'r A55, sy'n ffordd allweddol drwy ogledd Cymru rhwng Caer a Chaergybi. Mae hyn yn cynnig cysylltiadau rhagorol i Dreffynnon â threfi ar hyd yr arfordir a dinasoedd i'r dwyrain.

Mae canol y dref mewn safle canolog ynddi gyda mannau preswyl yn ymestyn allan ar hyd priffyrdd yr A5026 a Ffordd Maes Glas. Mae hyn yn sicrhau bod canol y dref yn hygyrch iawn i bawb o'r trigolion. Mae Parc Treftadaeth Maes Glas yn gyswllt allweddol arall allan o ganol y dref. Mae'r parc gwledig 70 o erwau yn gartref i goetiroedd, cronfeydd dŵr ac asedau treftadaeth.



# HANES TREFFYNNON



***“Wedi’i lleoli yng nghanol cefn gwlad yn edrych dros aber Afon Dyfrdwy, daw enw tref farchnad Treffynnon o’i nodwedd fawr: Ffynnon Gysegredig y Santes Gwenffrewi o’r seithfed ganrif, un o ‘saith rhyfeddod Cymru’. Ar un adeg, roedd Treffynnon yn cyflenwi dŵr a llafur i redeg y ffactrïoedd a’r melinau a ymddangosodd gerllaw yn Nyffryn Maes Glas yn ystod y ddeunawfed ganrif, ac mae adfeilion y rhain yn rhan o Barc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas bellach. Nid yw canol y dref farchnad hon wedi newid rhyw lawer dros yr ychydig ganrifoedd diwethaf. Heddiw, mae’n cynnal amrywiaeth o ganolfannau cymunedol a siopau.”***

Treffynnon fel y’i disgrifir yn Deall Lleoedd Cymru.

***Datblygiad Hanesyddol***

Mae hanes Treffynnon yn ymestyn yn ôl i ddyddiau’r Rhufeiniaid. Gellir olrhain ei atyniad ymwelwyr a phererinion yn ôl i Ffynnon y Santes Gwenffrewi, y credir fod ganddi nodweddion sy’n iacháu. Am y rheswm hwn, ac oherwydd fod y ffynnon wedi ei rhestru fel rhan o “Saith Rhyfeddod Cymru”, caiff Treffynnon ei adnabod weithiau fel Lourdes Cymru. Mae ymwelwyr a phererinion yn dal i ddod i ymweld â’r ffynnon o Gymru a’r tu hwnt. Mae Ffynnon y Santes Gwenffrewi wedi ei lleoli 0.3 milltir i’r gogledd o’r Stryd Fawr, ar hyd Stryd Maes Glas.

Mae canol y dref yn amlygu nifer o adeiladau cain o wahanol gyfnodau ac arddulliau pensaernïol sy’n llawn cymeriad a hunaniaeth. Ar ben dwyreiniol y Stryd Fawr mae Amgueddfa Ardal Treffynnon, sy’n ymwneud yn benodol â hanes Treffynnon a’r ardaloedd cyfagos. Mae’r llyfrgell leol hefyd yn cynnwys adran fach ond cynhwysfawr o hanes lleol.

## HANES TREFFYNNON

Mae hanes cyfoethog Treffynnon i'w weld hefyd yn y nifer mawr o adeiladau rhestredig, gyda llawer wedi eu lleoli yn y Stryd Fawr neu gerllaw iddi:

- Tafarn y King's Head (rhestredig Gradd II), sydd bellach yn cynnwys Amgueddfa Ardal Treffynnon
- Hotel Victoria (rhestredig Gradd II), sy'n fframio'r olygfa o ben dwyreiniol y Stryd Fawr
- Vron Chambers (rhestredig Gradd II) gerllaw tafarn y King's Head
- Hen fanc y National Westminster (rhestredig Gradd II) ar y Stryd Fawr
- Bythynnod Panton Place (rhestredig Gradd II), sy'n arwain at yr Ardd Goffa
- Tafarn y Red Lion (rhestredig Gradd II), ar y Stryd Fawr
- Wyneb hen Neuadd y Dref (rhestredig Gradd II), ar y Stryd Fawr
- Hen fanc y Midland (rhestredig Gradd II), ar y Stryd Fawr
- Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau sydd ar ben gorllewinol y Stryd Fawr sydd hefyd yn wynebu Stryd y Groes a Stryd y Ffynnon hefyd yn rhestredig Gradd II
- Neuadd y Seiri Rhyddion (rhestredig Gradd II) ar Coleshill Street – gerllaw ychydig o adeiladau rhestredig Gradd II eraill
- Llys Sirol Treffynnon (rhestredig Gradd II) ar Stryd Helygain, sydd ar werth (ffynhonnell)
- Adeiladau Cyngor Tref Treffynnon (rhestredig Gradd II) ar Rue St Gregoire



## TIRWEDD A CHEFNDIR POLISI

### CENEDLAETHOL

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Polisi Cynllunio Cymru 2024

Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2008

Teithio Llesol Cymru 2013

Dyfodol Cymru – y Cynllun Cenedlaethol 2040

Canllaw Creu Lleoedd 2020

Canol Trefi: Datganiad Sefyllfa 2023

### RHANBARTHOL

Gweledigaeth Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Cynllun Adfywio Gogledd Cymru 2018-2035

Strategaeth a Chynllun Pobl: Mewn Undod mae Nerth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Actif Gogledd Cymru: Strategaeth 10 Mlynedd 2023-2033

### LLEOL

Cynllun y Cyngor 2022-23

Cynllun Llesiant 2022-23

Strategaeth Newid Hinsawdd 2022-30

Cefnogi Natur yn Sir y Fflint 2016

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030

Cyngor Tref Treffynnon – Cynllun Busnes 2022-2027

Mae cefndir polisi lle fel Treffynnon yn bwysig gan ei fod yn dangos y berthynas ag agendâu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan roi cyfeiriad a chysondeb strategol. Mae hefyd yn dangos cyfleoedd a chyfyngiadau strategol lle a'i ddatblygiad.

## CENEDLAETHOL

### *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)*

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy.

Nid yw hyn yn gysyniad newydd i'r system gynllunio gan fod egwyddorion datblygu cynaliadwy wedi bod yn rhan greiddiol o bolisi cynllunio ers i Bolisi Cynllunio Cymru gael ei gyhoeddi gyntaf yn 2002. Fodd bynnag, mae'r cysyniad wedi cael ei ehangu o dan y Ddeddf Llesiant ac mae'n gofyn am welliant yn y ffordd y gweithredir pob un o bedair agwedd llesiant, sef yr agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae'r Ddeddf Llesiant wedi sefydlu saith nod llesiant a'u bwriad yw llywio gwaith pob corff cyhoeddus yng Nghymru.


Er mwyn dangos bod ystyriaeth addas wedi ei rhoi i'r nodau llesiant ac egwyddor datblygu cynaliadwy yn y broses o wneud penderfyniadau, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw i'r 'pum ffordd o weithio' yn y Ddeddf Llesiant. Mae'r rhain yn gofyn am ystyried: cynnwys; cydweithio; integreiddio; atal; a ffactorau hirdymor.

### *Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 – Chwefror 2024*

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae'n cael ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs), Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru, a llythyrau eglurhad polisi, sydd, ynghyd â Pholisi Cynllunio Cymru yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer Cymru. Prif amcan Polisi Cynllunio Cymru yw sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol eraill a dyletswyddau canlyniadol fel y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r system gynllunio yng Nghymru neu'n gweithredu ynddi ymdrin â'r cysyniad o greu lleoedd mewn penderfyniadau cynllunio a rheoli datblygu er mwyn sicrhau creu lleoedd cynaliadwy a gwella llesiant cymunedau. Lleoedd Cynaliadwy yw nod y system gynllunio defnydd tir yng Nghymru; maent yn ganlyniad y system gynllunio yn hytrach na'r broses o'u cyflawni. Dylai pob penderfyniad datblygu, boed drwy gynlluniau datblygu, dewisiadau polisi neu benderfyniadau

rheoli datblygu unigol geisio cyfrannu tuag at wneud lleoedd cynaliadwy a gwella llesiant. Dylai'r system gynllunio greu lleoedd cynaliadwy sy'n ddeniadol, cymdeithasol, hygyrch, gweithredol, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar. Gall lleoedd unigol fod ar sawl ffurf, a bydd dehongli'r hyn sy'n gwneud lle da yn amrywio. Bydd gan bob lle ei nodweddion, ei hanes a'i hunaniaeth unigryw ei hun, yn seiliedig ar sut mae, a sut y bydd, pobl yn rhyngweithio â'r tirwedd a'r treflun. Mae'r synnwyr hwn o 'le' yn amrywio, o ardaloedd gwledig cefn gwlad sy'n darparu sail economaidd i amaethyddiaeth a thwristiaeth ffynnu, i ardaloedd trefol sy'n esblygu'n barhaus ac sy'n rhoi canolbwynt i ddatblygiadau sylweddol yn gymdeithasol ac economaidd. Mae gwerth cynhenid lle i bobl neu gymunedau yn neilltuol o bwysig, a all fod am resymau esthetig, diwylliannol, ysbrydol neu hanesyddol ac awdurdodau cynllunio sydd yn y sefyllfa orau i ddeall y rhain.




## Beth yw Creu Lleoedd?

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn diffinio "creu lleoedd" fel dull cyfannol o gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol. Mae'n manteisio ar botensial ardal i greu datblygiadau o ansawdd uchel a mannau cyhoeddus sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn yr ystyr ehangaf. Mae creu lleoedd yn ystyried y cyd-destun, swyddogaeth a'r berthynas rhwng dafle datblygu a'i amgylchedd ehangach. Bydd hyn yn wir am ddatblygiadau sy'n creu lleoedd newydd yn ogystal â datblygiadau bach sy'n cael eu creu o fewn lle ehangach. Ni ddylai creu lleoedd ychwanegu cost ychwanegol at ddatblygiad, ond bydd yn gofyn am feddwl craff, aml-ddimensiwn ac arloesol a dylid ei ystyried ac y cam cynharaf posibl. Mae creu lleoedd yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at gynigion datblygu gan arwain at fanteision sy'n mynd y tu hwnt i ffin datblygiad corfforol ac sy'n ymgorffori gwytnwch ehangach mewn penderfyniadau cynllunio.

## Canol Trefi – Datblygiadau Manwerthu a Masnachol

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi nifer o amcanion cyffredinol ar gyfer canolfannau manwerthu a masnachol, a dylai awdurdodau cynllunio geisio eu cyflawni trwy eu cynlluniau datblygu a'u penderfyniadau rheoli datblygu gan sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint ag y medrant at y nodau llesiant. Mae'n rhaid i'r system gynllunio:

- Hyrwyddo canolfannau manwerthu a masnachol trefol a gwledig hyfyw fel y lleoliadau mwyaf cynaliadwy i fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu a gweithredu busnes;
- Cynnal a gwella bywiogrwydd, hyfywedd a dengarwch canolfannau manwerthu a masnachol; a
- Gwella mynediad at, ac o fewn, canolfannau manwerthu a masnachol drwy bob math o drafnidiaeth, gan roi blaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Mae canolfannau manwerthu a masnachol yn ganolog i weithgarwch cymunedol a ffyniant lleol, ac er mwyn cynllunio ar eu cyfer yn effeithiol mae'n bwysig deall eu swyddogaeth, eu rolau a'u cysylltiadau. Gall defnyddio uwchgynlluniau, briffiau datblygu neu gynlluniau lle ategu strategaethau manwerthu drwy ddarparu manylion ychwanegol a helpu i roi polisïau cynlluniau datblygu ar waith. Wrth ddatblygu strategaethau, cynlluniau a pholisïau i adfywio canolfannau sy'n bodoli eisoes a'u gwneud yn fwy deniadol, dylai awdurdodau cynllunio ymgynghori â'r sector preifat a chymunedau lleol.

***Strategaeth Drafnidiaeth Cymru***

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn darparu'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ac mae'n nodi blaenoriaethau strategol system drafnidiaeth ddiogel, integredig, gynaliadwy, effeithlon ac economaidd sy'n gwasanaethu Cymru. Mae'n rhoi cyd-destun i nod Llywodraeth Cymru o leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn ceir preifat, ac mae'n cefnogi newid dulliau teithio at gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Adlewyrchir hyn ym Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol, sy'n rhoi creu lleoedd wrth wraidd y system gynllunio. Cefnogir y newid dulliau hwn gan yr hierarchaeth drafnidiaeth gynaliadwy, sy'n blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Cafodd Strategaeth Drafnidiaeth bresennol Cymru, Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl, ei gyhoeddi yn 2008. Ers hynny cyflwynwyd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n gynyddol ddylanwadol yn y ffordd rydym yn integreiddio teithio llesol â datblygiad newydd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn galluogi pobl i gerdded a beicio fel rhan o'u gweithgareddau bob dydd. Mae cynlluniau Metro hefyd yn cael eu datblygu yn y De-ddwyrain, y De-orllewin a'r Gogledd, sy'n cael eu hysgogi gan fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid gweithredu. Bydd y prosiectau metro yn cynnig cyfleoedd sylweddol i gymunedau a datblygiadau newydd gael eu cefnogi gan drafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd da. Mae technolegau trafnidiaeth hefyd wedi camu ymlaen yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda gerbydau allyriadau isel iawn yn gallu cael effaith drawsffurfiannol ar ddatgarboneiddio trafnidiaeth. Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Llwybr Newydd, yn cydnabod y newidiadau hyn ac yn pennu ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer trafnidiaeth. Mae Llwybr Newydd, ynghyd â'i bolisïau a phrosiectau trafnidiaeth cysylltiedig, wedi cyfrannu'n uniongyrchol at strategaeth ofodol, canlyniadau a pholisïau Dyfodol Cymru.

**Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Mae Cerdded a Beicio wedi ennill cefnogaeth ers i Lywodraeth Cymru basio Deddf Teithio Llesol (Cymru), a dderbyniodd gydsyniad brenhinol ym mis Tachwedd 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod nifer o ddyletswyddau ar yr awdurdodau lleol i wella'n barhaus y cyfleusterau a llwybrau, yn rhai newydd a rhai sy'n bod eisoes, i gerddwyr a beicwyr a pharatoi mapiau yn nodi'r llwybrau presennol, a rhai posibl yn y dyfodol, y gallant eu defnyddio. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i gynlluniau ffyrdd newydd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr yn y camau cynllunio a dylunio. Dylid dylunio neu wella'r rhwydwaith teithio llesol i gyrraedd set o safonau'r arferion gorau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau:

- Canllawiau Dylunio Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- Canllawiau Statudol ar gyfer Gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013;
- Y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol.

### *Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040*

Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol, sy'n gosod cyfeiriad datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer ymdrin â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi sy'n ffynnu, cyflawni datgarboneiddio a gwrthsefyll newid hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau.

### *Datganiadau Ardal – Cyfoeth Naturiol Cymru*

Mae Datganiadau Ardal a gynhyrchir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â'u dyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn nodi strategaeth ar gyfer rheoli Adnoddau Naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol. Fel yr awgryma'r enw, mae'r datganiadau yn seiliedig ar ardaloedd gofodol.

Mae saith yn cwmpasu Cymru, gyda phedwar ohonynt yn ymestyn i ardal y Parc Cenedlaethol.

- De-ddwyrain Cymru
- Canol De Cymru
- De-orllewin Cymru
- Canolbarth Cymru

### *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2020) (SoNaRR)*

Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys asesiad o gyflwr Adnoddau Naturiol yng Nghymru (SoNaRR). Mae'r adroddiad hwn yn ddogfen allweddol wrth baratoi Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol. Mae'r adroddiad diweddaraf yn tynnu sylw at yr angen i sectorau cyhoeddus drosoli newid i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd gan ddefnyddio newid trawsnewidiol ar draws ecosystemau, a systemau economaidd a chymdeithasol.

### *Deddf yr Amgylchedd 2016 Rhan 1 Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Rhan 2 Newid yn yr Hinsawdd.*

Mae adnoddau naturiol yn hanfodol ar gyfer yr aer rydyn ni'n ei anadlu, y dŵr rydyn ni'n ei yfed a'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta. Maent yn gwella ansawdd y lleoedd lle'r ydym yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â nhw ac yn creu'r tirweddau a'r bioamrywiaeth sy'n gwneud yr ardaloedd hyn yn arbennig.

Mae adnoddau naturiol sy'n iach ac yn ffynnu hefyd yn iachach i bobl, eu cymunedau ac i'r economi, ond mae'r galw ar ein hadnoddau naturiol yn cynyddu. Os na fyddwn yn gweithredu ar unwaith i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, bydd canlyniadau difrifol a fydd effeithio ar bob un ohonom. Mae angen i ni newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau fel ein bod yn parhau i elwa o'n hadnoddau naturiol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae Deddf yr Amgylchedd yn ein helpu i ymateb i'r her hon drwy gyflwyno rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol fel dull newydd sy'n sicrhau nad yw'r ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau naturiol ac yn effeithio arnynt yn arwain at eu dirywiad hirdymor. Rydym wedi dysgu o brofiadau ein partneriaid rhyngwladol ac rydym yn defnyddio'r arferion gorau rhyngwladol drwy weithredu dull ecosystemau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol er mwyn helpu Cymru i arwain y ffordd ar Ddatblygu Cynaliadwy. Ein nod yw rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy ac ar raddfa sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb amharu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol ac sy'n cyfrannu at y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf – A6 Dyletswydd Bioamrywiaeth - yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo ecosystemau cydnerth. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ymgorffori ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau mewn polisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau. Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gwent yn cyflwyno canllawiau mwy manwl ar sail Gwent gyfan. Bydd cydymffurfio â'r ddyletswydd A6 hon yn helpu manteisio i'r eithaf ar gyfraniadau i'r nodau Llesiant. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r canllawiau canlynol:

- Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru 2013
- Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr: Adolygiad 2013-2018 a Gweithredoedd y Dyfodol (llyw.cymru)
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2015
- Cyfoeth Naturiol Cymru 2017
- Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040

### *Canllaw i Greu Lleoedd 2020 – Comisiwn Dylunio Cymru*

Mae canllaw Comisiwn Dylunio Cymru wedi'i anelu at bawb sy'n ymwneud â chreu lleoedd llwyddiannus, gan gynnwys y gymuned leol, dylunwyr trefol, cynllunwyr, penseiri, penseiri tirwedd, datblygwyr, cynllunwyr trafnidiaeth, peirianwyr priffyrdd ac ecolegwyr ymhlith eraill. Mae angen i bob proffesiwn a phob unigolyn sy'n ymwneud â chynllunio, dylunio, datblygu neu reoli lleoedd gydweithio ar bob cam tuag at agenda creu lleoedd gyffredin. Cydnabyddir bod natur lleoedd yn amrywio ar draws Cymru, bod pentrefannau gwledig yn wahanol i

ganol trefi, ac y gall coetir fod yn lle, llawn cymaint â sgwâr trefol. Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar aneddiadau ar bob graddfa ac ymhob lleoliad sy'n cael eu newid neu eu datblygu o'r newydd.

Yn aml, mae'r theori o ddeall lle yn priodoli tair elfen allweddol i leoedd da, a dylai creu lleoedd geisio sicrhau bod pob un o'r rhain yn cael sylw:

#### Gweithgarwch

Y gweithgareddau sy'n digwydd yn y lle a gefnogir gan wahanol fathau o ddefnydd tir, symudiad cerddwyr a beicwyr, chwarae a bywyd cymdeithasol o fewn y parth cyhoeddus a digwyddiadau.

#### Ffurf Ffisegol

Y cefndir ffisegol sy'n ffufio'r lle gan gynnwys y treflun, ffurf adeiledig, tirwedd, topograffeg, ecoleg, micro-hinsawdd a'r parth cyhoeddus.

#### Ystyr

Nodweddion unigryw lle gan gynnwys y cyd-destun, hunaniaeth lleoedd presennol, ymdeimlad unigryw o le, nodweddion sylweddol, adeiledig a naturiol, cymdeithasau diwylliannol, profiadau synhwyraidd, diogelwch a chynhwysiant a theimlad o berthyn.

Y meysydd sydd angen i greu lleoedd eu hystyried yw

#### Pobl a'r gymuned

Mae'r gymuned leol yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynigion. Ystyrir anghenion, dyheadau, iechyd a lles pob person ar y cychwyn. Mae cynigion yn cael eu llunio i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio, diogelu ac/neu wella ymdeimlad o gymuned a hyrwyddo cydraddoldeb.

#### Lleoliad

Mae lleoedd yn tyfu ac yn datblygu mewn ffordd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, yn cefnogi ac yn gwella lleoedd sy'n bodoli eisoes, ac sydd â chysylltiadau da. Mae lleoliad tai, cyflogaeth, hamdden a chyfleusterau eraill yn cael eu cynllunio er mwyn helpu i leihau'r angen am deithio.

#### Symud

Mae cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu blaenoriaethu i ddarparu dewis o ddulliau trafnidiaeth, ac osgoi gorfod dibynnu ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol, diogel sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ehangach, ac mae gorsafoedd ac arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu hintegreiddio'n gadarnhaol.

#### Dibenion cymysg

Mae gan leoedd amrywiaeth o ddibenion sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd datblygu a chymysgu defnyddiau a daliadaethau yn helpu i gefnogi cymuned amrywiol a pharth cyhoeddus bywiog.

### Y Parth Cyhoeddus

Mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol, gyda hunaniaeth unigryw. Maen nhw wedi'u cynllunio i fod yn gadarn ac yn hyblyg gyda thirwedd, seilwaith gwyrdd a draeniad cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Maen nhw wedi'u cysylltu'n dda â lleoedd presennol, ac maen nhw'n hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac amrywiaeth o weithgareddau i bawb.

### Hunaniaeth

Mae rhinweddau cadarnhaol, nodedig lleoedd presennol yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Nodir nodweddion a chyfleoedd unigryw lleoliad, yn cynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith, priodoleddau ffisegol adeiledig a naturiol, ac ymatebir iddynt.

### *Canol trefi: datganiad sefyllfa, Mai 2023, Llywodraeth Cymru*

Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad sy'n nodi'r heriau sy'n wynebu canol trefi a sut y byddant yn helpu i'w hadfywio.

Mae'r datganiad yn agor trwy ddweud bod canol trefi'n wynebu heriau cymhleth sydd weithiau'n unigryw i leoedd penodol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r problemau a wynebir gan drefi yng Nghymru sy'n ei chael yn anodd, yn gallu cael eu priodoli i gyfuniad o ddirywiad yng nghanol y dref a datblygiadau y tu allan i'r dref ar ôl y 1980au. Mae angen i ni gydnabod cymhlethdod y problemau hyn a gweithio gyda'n gilydd ym mhob sector ledled y wlad i adfywio canol ein trefi. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r heriau sy'n wynebu trefi, yn ogystal â'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i osod y sylfeini ar gyfer newid a galluogi cyflawni'n lleol i ddatblygu ein canol trefi fel lleoliadau ar gyfer ystod o wasanaethau, menter economaidd, gwaith ac i fod yn gymunedau cysylltiedig.

Caiff yr heriau sy'n wynebu canol trefi eu diffinio fel:

- Symud gwasanaethau o ganol trefi i'r cyrion
- Heriau modelau busnes
- Lleoliadau y tu allan i drefi yn cael eu hatgyfnerthu gan ddibyniaeth ar geir preifat
- Argyfyngau hinsawdd a natur
- Gallu i gyflawni'n lleol
- Roedd y datganiad sefyllfa'n amlinellu rhai o Gamau Gweithredu Llywodraeth Cymru.

### Polisïau canol trefi yn gyntaf

Mae tynnu busnesau a sefydliadau'r sector cyhoeddus o ganol trefi wedi cyfrannu at ddirywiad canol trefi. Bydd lleoli neu adleoli'r sefydliadau angor hyn yn strategol i ganol trefi yn cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant cwsmeriaid er mwyn cefnogi sector adwerthu cadarn, yn ogystal â chreu galw am wasanaethau eraill. Bydd hyn yn gwneud trefi'n fwy deniadol i fewnfuddsoddi yn ogystal ag i fusnesau presennol a newydd.

### Polisïau ar gyfer datblygiadau y tu allan i drefi a'u cysylltedd â chanol trefi

Rhaid i nod sylfaenol unrhyw bolisi ar gyfer datblygu y tu allan i drefi ymwneud ag annog mantais ariannol a chyfleoedd datblygu tuag at ganol y dref, neu sicrhau bod datblygiadau y tu allan i drefi wedi'u cysylltu'n gymdeithasol ac yn ofodol â chanol trefi. Fodd bynnag, ni all hyn olygu dymchwel neu ailddatblygu datblygiadau y tu allan i drefi, oherwydd nid yw hynny'n ddymunol nac yn amgylcheddol gyfrifol.

### Cyflawni mewn ffordd gydgysylltiedig

Yn ogystal â'r heriau a nodir uchod, bydd pob tref hefyd yn wynebu problemau a chyfleoedd penodol eraill, ac mae deall y cyd-destun lleol yn hollbwysig er mwyn penderfynu pa fath o fuddsoddiad sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol o ran cefnogi llwyddiant tref. Bydd y pethau sylfaenol yn debyg ar gyfer y rhan fwyaf o drefi – fel gwasanaeth bysiau digonol, cynnig gwasanaethau amrywiol, cysylltedd digidol da – ond bydd y ffordd orau o'u darparu a'u blaenoriaethu yn wahanol. Nid oes datrysiad syml, na model sy'n addas i bawb. Felly, mae'n hanfodol cael dull sy'n caniatáu i bob tref ddod o hyd i atebion lleol sy'n manteisio i'r eithaf ar fenter a gwybodaeth leol.

**Cam Gweithredu - Gweithio ar draws y llywodraeth i ddatblygu cynllun hirdymor ar gyfer lleoli a/neu adleoli amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus i ganol trefi, gyda chefnogaeth strategaethau rheoli asedau priodol a strwythurau llywodraethu cysylltiedig cyrff gwasanaethau cyhoeddus.**

**Cam Gweithredu - Gweithio ar draws y llywodraeth, deall refeniw a gwariant cyfalaf, a fframweithiau caffael sefydliadau allweddol yn y sector cyhoeddus (ee iechyd, addysg) er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r polisi Canol Trefi yn Gyntaf.**

**Cam Gweithredu - Sefydlu consortia o landlordiaid cymdeithasol a datblygwyr preifat i alluogi datblygiadau tai mewn lleoliadau priodol mewn trefi ac o'u cwmpas, sy'n dilyn egwyddorion creu lleoedd.**

**Cam Gweithredu - Rhaid targedu'r cyllid Trawsnewid Trefi yn yr ardaloedd lle mae'n gallu cefnogi cyfleoedd trawsnewidiol ac o dan gynllun creu lleoedd sydd wedi cael ei ddatblygu'n lleol ar draws pob sector.**

**Cam Gweithredu - Ystyried opsiynau i gefnogi'r capasiti ar gyfer cyflawni a darparu cymorth arbenigol, gan gynnwys ystyried cylch gwaith Comisiwn Dylunio Cymru yn y dyfodol.**

**Cam Gweithredu - Gweithio gyda phartneriaid cyhoeddus, cymdeithasol a phreifat i ddadansoddi'r rhwystrau a chanfod cyfleoedd i sicrhau bod seilwaith gwyrdd ac atebion sy'n seiliedig ar natur – gan ddefnyddio egwyddorion economi gylchol – yn cael eu gwreiddio a'u blaenoriaethu yn y broses o wneud penderfyniadau wrth ymgymryd â gwaith mewn mannau cyhoeddus yng nghanol trefi.**

**Cam Gweithredu - Cryfhau gweithrediad y polisi Canol Trefi yn Gyntaf wrth gynllunio a grymuso cynllunwyr lleol i wrthod datblygiadau nad ydynt yn bodloni'r polisi ac i gynnig cynlluniau newydd ar gyfer ailddefnyddio datblygiadau y tu allan i drefi mewn modd addasol.**

**Cam Gweithredu - Bydd ein canllawiau ar gyfer paratoi Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried polisïau ehangach, gan gynnwys Canol Trefi yn Gyntaf.**

**Cam Gweithredu - Byddwn yn edrych ar ddull 'pecynnau buddion a chodi tâl' teg a chyfartal o gyflwyno unrhyw gynlluniau rheoli'r galw newydd, gan edrych ar ffyrdd o wella gwasanaethau cyn codi tâl, neu gyflwyno prisiau is pan fydd y cyfnod codi tâl yn dechrau.**

## RHANBARTHOL

***Strategaeth Ofodol Is-ranbarthol Gorllewin Swydd Gaer a Gogledd-ddwyrain Cymru (2006)***

Er ei fod yn perthyn i'w gyfnod, roedd y gwaith cydweithredol, trawsffiniol hwn yn cydnabod diffyg perthnasedd y ffin genedlaethol wrth ystyried sut mae'r economi isranbarthol yn gweithredu, ac yn rhoi rôl flaenllaw  i Sir y Fflint fel canolbwynt economaidd isranbarthol. Mae llawer o'i amcanion yn dal i fod yn berthnasol fel sail ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), yn enwedig gan fod y gweithio hwn mewn partneriaeth yn parhau fel rhan o Gynghrair Mersi - Dyfrdwy.

Cynghrair Mersi a Dyfrdwy (Mersey Dee Alliance - MDA) - Mae'r Cyngor hefyd yn bartner allweddol yn yr MDA a ddeilliodd allan o gydnabod buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a rennir ar draws ardal Gorllewin Swydd Gaer, Cilgwri a gogledd-ddwyrain Cymru. Ffurfiwyd y Gynghrair ym mis Ebrill 2007 ac mae'n cynnwys Gorllewin Swydd Gaer a Chaer, Sir y Fflint, Wrecsam a Chilgwri, ynghyd â Phrifysgol Caer, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Llywodraeth Cymru a Mersey Travel. Er ei fod eistedd bob ochr i ffin genedlaethol, mae rhanbarth Twf Mersi a Dyfrdwy wedi cael ei gydnabod fel un isranbarth economaidd, gyda phoblogaeth yn agos at 1 miliwn. Rôl yr MDA yw gwella proffil a hunaniaeth rhanbarth ffin Gogledd-ddwyrain Cymru / Gogledd-orllewin Lloegr a chynnal a datblygu cystadleurwydd y rhanbarth.

Mae wedi cyhoeddi nifer o strategaethau gan gynnwys Strategaeth Ofodol Isranbarthol (2006-2021). Mae Prosbectws Twf Mersi a Dyfrdwy a gyhoeddwyd yn ddiweddar – Unlocking Our True Potential yn nodi'r buddsoddiad seilwaith trafnidiaeth sydd ei angen i ryddhau'r potensial o dwf economaidd yn ogystal â'r buddsoddiad rheilffordd a nodwyd ym mhrosbectws Growth Track 360. Mae'r prosbectws yn nodi safleoedd Datblygu Strategol gan gynnwys Warren Hall a Phorth y Gogledd, oherwydd eu lleoliadau strategol a'u potensial ar gyfer twf sylweddol.

**Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Gweledigaeth Twf a Chais Datblygu)**

Cyhoeddodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru Weledigaeth Twf ar gyfer economi Gogledd Cymru yn 2016 ac iddo'r nodau canlynol:

- Gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- Cefnogi a chadw pobl ifanc yng nghymunedau'r rhanbarth.
- Mynd i'r afael â diweithdra ac anweithgarwch ar draws y rhanbarth.
- Cefnogi a galluogi buddsoddiad gan y sector preifat yn y rhanbarth i hybu cynhyrchiant economaidd a gwella perfformiad economaidd a chyflogaeth.

Bydd y rhain yn cael eu gwireddu trwy gynlluniau penodol sy'n ymwneud â seilwaith, sgiliau a chyflogaeth a chefnogi twf busnesau. Bydd Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru yn creu miloedd o swyddi, hybu'r economi, gwella cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu digidol, canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy, cefnogi twristiaeth a mwy. Yn fras, y weledigaeth yw tyfu gwerth yr economi 2.8% y flwyddyn i £20 biliwn a chreu dros 120,000 o gyfleoedd swyddi newydd. Mae'r Cais yn cynnwys cyfres o brosiectau o dan wyth rhaglen ac mae prosiectau allweddol yn Sir y Fflint yn cynnwys cefnogi safleoedd cyflogaeth strategol yn Warren Hall, Brychdyn a'r Porth Gogleddol, Glannau Dyfrdwy a chreu Canolfan Gweithgynhyrchu Uwch.

***Cynllun Adfywio Gogledd Cymru 2018-2035***

Mae'r Strategaeth hon yn nodi gweledigaeth ac amcanion a rennir ar gyfer buddsoddiad a gweithgarwch sector cyhoeddus cydlynol yng ngogledd Cymru hyd 2035. Mae'r cyd- ddatganiad o weledigaeth wedi ei nodi isod.

Mae'r Strategaeth yn rhoi arweiniad ar sut ddylid blaenoriaethu'r cyllid sydd ar gael, ac yn ein helpu i alinio'r broses adfywio â mentrau eraill i gefnogi twf economaidd, gan gynnwys Cynllun Twf Gogledd Cymru. Yn ogystal, mae'n ceisio sicrhau bod cyfleoedd economaidd ar gael i gymaint o bobl a chymunedau â phosib ar draws y rhanbarth.

> ***"Erbyn 2035, bydd Gogledd Cymru yn profi llai o anghydraddoldeb, mwy o gyflogaeth, canol trefi wedi'u moderneiddio, gwell cynnig tai, economi ymwelwyr cryfach, economi gwledig gwydn, a gwell iechyd i bobl leol."***

**Amcanion**

Mae Strategaeth Adfywio Gogledd Cymru yn ceisio:

- **Lleihau anghydraddoldeb –** drwy helpu mwy o bobl i rannu buddion twf yn y dyfodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi'r rhai gyda'r incwm aelwyd isaf i gael mynediad at gyfleoedd.
- **Cynyddu cyflogaeth -** creu cyfleoedd am gyflogaeth drwy brosiectau adfywio.
- **Moderneiddio canol trefi -** drwy adeiladu ar eu swyddogaeth fel canolfannau am gyfleoedd economaidd lleol, darpariaeth gwasanaeth a chynhwysiad cymdeithasol. Adnabod eu swyddogaeth yn yr economi sylfaenol a'u helpu i addasu i newid economaidd.
- **Datblygu'r economi wledig -** helpu i greu cymunedau gwledig cynaliadwy drwy gael mynediad at gyfleoedd economaidd a mynediad at wasanaethau.
- **Gwella'r cynnig tai -** drwy sicrhau fod y datblygiad yn digwydd lle mae galw, gan ddarparu opsiynau tai o ansawdd da i drigolion presennol, pobl ifanc a phobl sy'n symud i'r ardal.
- **Cryfhau'r economi twristiaid -** drwy adeiladu ar y cynnig twristiaid a'r cryfderau sy'n bodoli yn y rhanbarth gan gynnwys y marchnadoedd twristiaeth antur a threftadaeth, ynghyd â darparu lleoliad atyniadol i ddigwyddiadau mawr mewn safleoedd sydd o bwys rhanbarthol megis Parc Eirias a Chae Ras Wrecsam. Drwy annog mwy o ymwelwyr i ogledd Cymru a darparu canol trefi modern, byddwn yn cynyddu nifer yr ymwelwyr a ddaw i'n trefi ac sy'n gwario yn yr economi lleol.
- **Gwella iechyd pobl leol -** drwy greu mannau sy'n hyrwyddo gweithgarwch corfforol, drwy ddarparu amgylcheddau a mannau gwyrdd o ansawdd a thrwy drechu tlodi yn ein cymunedau mwyaf eithriedig.

***Strategaeth a Chynllun Pobl: Mewn Undod mae Nerth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr***

Gweledigaeth y Bwrdd Iechyd yw creu gogledd Cymru iachach, gyda chyfleoedd i bawb wireddu eu llawn botensial. Golyga hyn y dylai pobl gogledd Cymru, dros amser brofi bywyd hirach ac o ansawdd gwell.

Caiff y weledigaeth hon ei harwain a'i llywio gan gynllun Llywodraeth Cymru "Cymru Iachach", dogfen drosolwg strategol y Bwrdd, "Byw'n Iachach, Aros yn Iach", a'u Strategaeth Gwasanaethau Clinigol esblygol yng ngogledd Cymru. Mae'r Pandemig Covid-19 wedi cael effaith anferthol mewn llawer ffordd:

- Cefnogi unigolion yn y gogledd sydd â Covid-19 a/neu symptomau o Covid-19.
- Yr effaith ar y rheini heb Covid-19 sydd wedi profi oedi mewn triniaeth oherwydd yr angen i ymdrin â'r Pandemig.
- Yr effaith ar ein staff, sydd wedi ymateb yn wych dros 2 flynedd o amodau parhaus y Pandemig.
- Mae wedi cyfyngu ar ein gallu i gyflawni rhai o'n blaenoriaethau a grybwyllwyd o'r blaen, trwy'r angen i ailflaenoriaethu.
- Mae wedi'n hatgoffa ni i gyd, pe bai angen atgoffa, y bydd angen inni i gyd ymateb yn wahanol i'r heriau o ddarparu gofal iechyd mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'r effeithiau hyn wedi dylanwadu'n drwm ar ei flaenoriaethau yn y blynyddoedd sydd o'n blaenau.

Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, a'i atodiadau cysylltiedig, gyda'r Strategaeth a'r Cynllun Pobl hwn yn un ohonynt, yn nodi sut y byddwn yn gwneud hyn trwy flaenoriaethu meysydd penodol i'w datblygu a gaiff eu cyflawni gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo. Mae'r manylion ynghylch y camau y byddwn ni'n eu cymryd yn y flwyddyn sy'n dod gyda'r Cynllun Tymor Canolig Integredig hefyd yn nodi, mewn ffurf ddangosol, sut y byddwn yn adeiladu ar ein camau gweithredu yn 2022/23 yn ystod 2023/24 ac ymlaen i 2024/25.  Yr hyn roedd y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio arno'n bennaf yn 2022/23 oedd:

- Dychwelyd yn llawn at fusnes craidd, gan gynnwys mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cysylltiedig â'r panedmig,
- Cadarnhau gwaith datblygiadol sydd eisoes wedi cychwyn ond heb ei orffen eto, gan gynnwys gwaith i gyflawni tuag at fframwaith Ymyriad Wedi'i Dargedu Llywodraeth Cymru.

***Gogledd Cymru Actif, Strategaeth 10 Mlynedd – 2023-2033***

Gogledd Cymru Actif yw'r bartneriaeth gweithgarwch corfforol a chwaraeon gyntaf i fynd

yn fyw yng Nghymru. Rydym yn cynnwys ystod eang o sefydliadau sydd wedi dod ynghyd i gytuno i weithio'n wahanol er mwyn cyflawni diben a rennir o gym unedau mwy actif yng ngogledd Cymru.

Mae'n cefnogi'n gryf ddull systemau cyfan o gyflawni gogledd Cymru mwy actif, gan adeiladu ar enw da'r rhanbarth am gydweithio ar draws sectorau i gyflawni newid systemau cyfan.

Mae yn golygu gweithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid i ddeall yr her ac adnabod a phrofi atebion gan weithio ar draws ffiniau sectorau, sefydliadau a lleoedd i gyflawni gwelliannau hir eu pharhad i iechyd a llesiant.

Ei weledigaeth yw ***"pawb yng ngogledd Cymru yn fwy actif, yn byw bywydau iachach a hapusach".***

Ei genhadaeth yw "pawb yng ngogledd Cymru yn cael mynediad i fannau a lleoedd diogel a chyfleoedd amrywiol i fod yn actif bob dydd".

Mae ei fframwaith gweithredu'n canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth:

### POBL ACTIF

**Creu a hyrwyddo cyfleoedd i bawb fod yn egnïol.**

Nod: Gweithio gyda phartneriaid i dyfu a hyrwyddo cyfleoedd ar draws amrywiaeth o leoliadau i helpu pobl o bob oed a gallu i fod yn actif yn eu hardal leol, fel unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

1. 1. Adolygu'r cyfleoedd lleol presennol i gefnogi pobl i fod yn actif.
2. Profi a thyfu cyfleoedd newydd sy'n helpu pobl i fod yn actif yn eu hardal leol.

### AMGYLCHEDDAU ACTIF

**Gwneud y defnydd gorau o leoedd a mannau lleol i fod yn actif.**

Nod: Profi ffyrdd newydd o weithio ar lefel leol i ddarparu cyfleoedd i bobl fod yn actif yn eu hardal leol drwy ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar le'.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

1. Treialu 'dulliau sy'n seiliedig ar leoedd' mewn ardaloedd y cytunwyd arnynt (yn seiliedig ar ddata a dealltwriaeth) ar draws y rhanbarth er mwyn:

- Deall yn well y rhwystrau a'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu wrth fod yn actif
- Cyd-greu a chyd-ddatblygu ymyriadau gyda'r bobl sy'n byw yn yr ardal i gynyddu cyfleoedd iddynt fod yn egnïol.

2. Cefnogi a helpu darparwyr gwreiddiau gwirfoddol a gweithgareddau cymunedol presennol i oroesi a ffynnu, a'r rhai sydd â'r gallu i wneud mwy i dyfu cyfleoedd yn lleol.
3. Mapio lleoedd a chyfleusterau lleol y gellir eu defnyddio i helpu i gyflawni ein nodau a llywio cynllunio a datblygu cyfleusterau yn y dyfodol.

### CYMDEITHASAU ACTIF

**Cynnal, cynnal a thyfu drwy wrando, cefnogi a gweithio gyda chymunedau i wneud 'bod yn actif' yn norm.**

Nod: Defnyddio ein llwyfan rhanbarthol a gweithio gyda phartneriaid i gysylltu â'r boblogaeth, gan godi proffil y manteision ehangach o fod yn weithgar i gynulleidfaoedd gwahanol ac amrywiol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

1. Arwain ymgyrchoedd cyfathrebu a diwrnodau ymwybyddiaeth drwy ddangos bod pobl go iawn yn actif mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw, fel y gall eraill weld pobl fel nhw yn symud mwy a mwynhau'r manteision.
2. Adolygu'r gweithlu presennol ar draws y rhanbarth a mapio anghenion (gweithlu a chymorth yn y dyfodol) i gyflawni'r strategaeth.

### SYSTEMAU ACTIF

**Cydlynu a chydweithio rhwng sawl sector.**

Nod: Codi proffil strategaeth ar y cyd Actif Gogledd Cymru a rhoi goleuni ar fanteision ehangach bod yn actif i'w hymgorffori mewn polisi ac ymarfer ar draws y rhanbarth.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

1. Datblygu cynllun cyfathrebu cydlynol gyda phartneriaid i dynnu sylw at fanteision eang bod yn actif gyda'i gilydd.
2. Profi ffyrdd newydd o weithio ar draws y rhanbarth, i uno sectorau i ymrwymo i sbarduno newid ar lefel system.
3. Adolygu data, tystiolaeth a dealltwriaeth ar draws sectorau.
4. Defnyddio'r strategaeth i dargedu cyfleoedd buddsoddi ychwanegol i'r rhanbarth.

## LLEOL

### *Cynllun y Cyngor, 2022-23, Cyngor Sir y Fflint*

Caiff y blaenoriaethau ar gyfer Sir y Fflint fel sir eu gosod gan y Cyngor a'i bartneriaid sector cyhoeddus lleol. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cyfuno'i adnoddau er budd Sir y Fflint. Gan weithio'n unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor yn cydweithio â phartneriaid sector cyhoeddus lleol fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o weithio gyda'n gilydd, gan rannu cyd-flaenoriaethau a chyfuno adnoddau er budd Sir y Fflint, gyda'r nod cyffredinol o wella llesiant lleol.

Mae'r Cynllun yn rhestru blaenoriaethau'r Cyngor o dan chwe phrif thema:

- Tlodi
- Tai Fforddiadwy a Hygyrch
- Cymdeithas ac Amgylchedd Gwyrdd
- Economi
- Llesiant Personol a Chymunedol
- Addysg a Sgiliau

Blaenoriaethau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint ar gyfer 2022/23 yw:

- Diogelwch Cymunedol – Mae pobl yn saff
- Byw Iach ac Annibynnol

Bydd dull Creu Lleoedd yn ymdrin â llawer o themâu'r Cyngor a amlinellir uchod, ond maes pwysig i ganolbwyntio arno i leoedd fel Treffynnol fydd yr economi. O fewn y thema hon, dymuna'r Cyngor adfywio ac ailddyfeisio ei ganol trefi, gyda'i lwyddiannau'n cael eu mesur gan y canlynol:

- Monitro iechyd a hyfywedd canol trefi i gefnogi rheoli effeithiol a phenderfyniadau buddsoddi busnesau – erbyn Mawrth 2023
- Annog a chefnogi buddsoddiad mewn adeiladau yng nghanol trefi yn enwedig i hwyluso defnydd mwy cynaliadwy ohonynt – erbyn Mawrth 2023
- Mae cyswllt hefyd â Thai Fforddiadwy a Hygyrch
- Gwella'r amgylchedd mewn canol trefi – erbyn Mawrth 2023
- Cefnogi twf mentrau cymunedol mewn lleoliadau canol tref – erbyn Mawrth 2023

### *Cynllun Llesiant Sir y Fflint a Wrecsam 2022-23*

Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw lle mae sefydliadau sector cyhoeddus ar draws Sir y Fflint a Wrecsam yn dod at ei gilydd. Rydym yn gweithio gyda'n cymunedau i newid y ffordd rydym yn gwneud pethau, er mwyn sicrhau y byddwn yn gallu wynebu'r heriau sydd o'n blaenau megis yr argyfwng hinsawdd a natur, a sut y byddwn yn sicrhau iechyd meddwl da a llesiant i bawb.

Ar ôl gweithio mewn partneriaeth drwy gydol COVID, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam bellach wedi dod at ei gilydd fel un corff. Rydym wedi ymrwymo i weithio'n egnïol a brwdfrydig a gwrando ar eraill. Mae hyn yn golygu cynnwys ein cymunedau, felly maen nhw bob amser yn rhan greiddiol o gynllunio a darparu ein gwasanaethau. Fel hyn, gall pawb elwa'n deg o'n hadnoddau, ein hasedau a'n gwasanaethau hygyrch. Rydyn ni'n gryfach gyda'n gilydd.

Mae gennym bartneriaeth strategol sy'n canolbwyntio'n gryf ar fabwysiadu dull ar y cyd o ddysgu, gwneud penderfyniadau a gweithredu. Gyda'i gilydd, mae ein sefydliadau'n cyflogi llawer o bobl leol. Mae pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sefydliad angor, yma ar gyfer y tymor hir ac yn gweithio i'n hardal, gan edrych ar sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn well i adeiladu lle tecach ac iachach. A sut y gallwn ddefnyddio ein grym gwario i bweru'r economi leol ac adeiladu llesiant.

| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam | | | |
| --- | --- | --- | --- |
| Datblygu cymunedau sy'n ffynnu drwy leihau anghydraddoldebau ar draws yr amgylchedd, addysg, cyflogaeth, incwm a thai. | | Gwella lles cymunedol drwy alluogi pobl o bob oed i fyw bywydau diogel, iach ac annibynnol. | AMCANION |
| Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ffynnu drwy wneud y mwyaf o sgiliau newydd, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu. | Plant a Phobl Ifanc | Sicrhau bod ymagwedd gydgysylltiedig ar draws y sector cyhoeddus at atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer pob plentyn a theuluoedd. | CANLYNIADAU |
| Paratoi sgiliau a thalentau pawb i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng natur, gan ddatblygu economi leol gadarn, deg a chynaliadwy. | Ein Cymunedau | Arloesi gyda chymunedau i ddatblygu iechyd meddwl a lles da. | |
| Cryfhau'r cyswllt rhwng sefydliadau'r BGC a'u staff sy'n gweithio ac yn byw yn ein cymunedau. | Ble rydym yn gweithio | Sicrhau bod y BGC wir yn deall anghenion ac adnoddau ein cymunedau. | |

Prif faes thematig a chanlyniadau y Cynllun Llesiant yw "Ein Cymunedau" sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio sgiliau a doniau pawb i fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a natur ac adeiladu economi leol gref, deg a chynaliadwy. Mae'r Cynllun yn datgan bod yn rhaid iddo gipio'r cyfle i adeiladu economi leol gynaliadwy, gan weithio ar draws ein rhanbarth ac ar draws y ffin i dyfu busnesau lleol, gwella bioamrywiaeth a chanolbwyntio ar datblygu seiliau a seilwaith gwyrdd. Bydd hyn yn helpu lliniaru effeithiau newid hinsawdd, addasu'n cymunedau i effeithiau hinsawdd sy'n newid a chefnogi gwell canlyniadau llesiant.

Mae hefyd yn nodi sgiliau gwyrdd fel cyfran sylweddol o farchnad swyddi'r dyfodol ac felly mae angen inni roi'r cyfle i bawb yn ein cymunedau i fanteisio ar y cyfleoedd anferthol ac amrywiol yn y sector hwn. Caiff teithio llesol hefyd ei weld fel rhywbeth sy'n allweddol er mwyn manteisio ar y nifer a'r amrywiaeth sylweddol o gyfleoedd cyflogaeth sefydlog, sy'n talu'n dda, a fydd ar gael, gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn hyrwyddo'r syniad o'r gymdogaeth 20 munud lle mae swyddi, cyfleusterau a siopau yn haws eu cyrraedd heb eistedd mewn tagfeydd.


***Strategaeth Newid Hinsawdd, 2022-2030, Cyngor Sir y Fflint***

Mae'r hinsawdd yn newid ac er ei fod bob amser wedi newid trwy brosesau amgylcheddol naturiol, caiff ei dderbyn yn helaeth bellach fod gweithgarwch dynol yn effeithio ar yr hinsawdd mewn ar raddfa sy'n cael effeithiau niweidiol ar bopeth byw. Roedd Cytundeb Paris 2015 ar Newid yn yr Hinsawdd yn cydnabod yr angen i gyflymu gweithredoedd a buddsoddi mewn lleihau effeithiau ar yr amgylchedd. Os na fyddwn ni'n gwneud dim, bydd y goblygiadau posibl yn niweidiol i'n cymuned trwy risg i iechyd a llesiant, llifogydd, gwres eithafol, tarfu ar seilweithiau mewn ynni, trafnidiaeth a diwydiant.

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r datganiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i'r Sector Cyhoeddus ddod yn garbon niwtral erbyn 2032, ac ym mis Rhagfyr 2019, cymeradwyodd Aelodau'r Cabinet gynnig i ddatblygu strategaeth glir ar gyfer Newid Hinsawdd a fydd yn gosod nodau a chamau gweithredu allweddol ar gyfer greu sefydliad carbon niwtral. Roedd y Cyngor yn gyfrifol am allyriadau nwyon tŷ gwydr o 46,434 tCO2e yn 2018/2019 o'r gwasanaethau mae'n eu darparu, yr adeiladau mae'n eu gweithredu a'r nwyddau/gwasanaethau mae'n eu prynu. Mae nifer o gamau y gall y Cyngor eu cymryd i leihau ei allyriadau nwyon tŷ gwydr fel sefydliad ac mae'r ddogfen hon yn dangos nodau a gweithredoedd camau cyntaf y Cyngor at ddod yn sefydliad carbon niwtral.

Mae amcanion y thema yn canolbwyntio ar adeiladau, symud a thrafnidiaeth, caffael, defnydd tir ac ymddygiad. Mae'r camau o nodwyd o fewn pob un o'r themâu hyn wedi ystyried barn Aelodau, y cyhoedd, a gweithwyr y Cyngor er mwyn creu llwybr sy'n uchelgeisiol a chyraeddadwy gyda'r buddsoddiad a'r adnoddau iawn, cydweithio ac arweiniad.

Mae'r Cyngor wedi pennu nodau o fewn pob un o themâu'r amcanion allweddol. Mae gan bob un o'r amcanion hyn nifer o gamau amrywiol. Mae'r nodau lleihau yn seiliedig ar linellau sylfaen 2018/19 ar gyfer pob thema.




### Cefnogi Natur yn Sir y Fflint – Ein cynllun i gynnal a gwella bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Cefnogi Natur yn Sir y Fflint yw ail gynllun Sir y Fflint ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth yn Sir y Fflint. Gwnaeth y Cyngor gynnydd da mewn 67% o'r ardaloedd targed o dan ei gynllun 2016-2019 ac mae'n symud ymlaen â'n gwaith ers 2020 mewn sefyllfa gryfach ar ôl parhau i sicrhau nifer o grantiau ar gyfer gweithredu dros natur a chynyddu swydd ein Swyddog Bioamrywiaeth i fod yn llawn-amser. Mae Sir y Fflint wedi chwarae rhan allweddol mewn sicrhau parhau'r Bartneriaeth Natur Ranbarthol (Bionet) a fydd yn arf pwysig wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol, o ran gweithredu targedau o'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cenedlaethol, blaenoriaethau o'r Datganiadau Ardal ac amcanion llesiant.

Mae ein cynllun yn uchelgeisiol. Bydd yn cynnwys gweithio ar draws adrannau'r Cyngor, gyrru newid a fydd yn arwain at nifer o fanteision a hyrwyddo ffyrdd newydd o feddwl a gweithio. Fe fydd yna gysylltiadau penodol gyda'r rhaglen lleihau carbon a maes blaenoriaeth datblygol newid hinsawdd.

Mae'r cynllun yn trafod glaswelltir a thir comin, coetir a choed a hefyd bwysigrwydd seilwaith wledig a gwyrdd sy'n ffurfio rhan o gynlluniau creu lleoedd.

### Seilwaith Gwyrdd Gwledig a Threfol

Mae yna nifer o safleoedd nad ydynt wedi eu dynodi a rhannau gwasgaredig o gynefinoedd sydd â gwerth o ran gwarchod natur a sy'n hanfodol ar gyfer natur. Mae hyn yn ffurfio ein hisadeiledd gwyrdd. Mae'n cynnwys nentydd a phocedi bach o goetiroedd gwlyb, hen wrychoedd, sy'n gweithredu fel coridorau ar gyfer bwyd gwyllt mewn caeau sydd fel arall yn wael o ran rhywogaethau, coetiroedd hynafol sy'n gartref i gannoedd o rywogaethau gan gynnwys clychau'r gog. Gyda'i gilydd mae'r cynefinoedd hyn yn darparu ar gyfer ein rhywogaethau mwy cyffredin a phrin fel Madfallod y Twyni, llyffantod Cefnfelyn, Ystlumod, Pathewod, Dyfrgwn, Madfallod Dŵr Cribog a miloedd o adar hirgoes ar aber Afon Dyfrdwy. Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd trefol o fewn y Sir yn ymgorffori 'mannau gwyrdd' anffurfiol sy'n bwysig i fywyd gwyllt a hamdden. Mae llawer o'r rhain yn waddol hen safleoedd diwydiannol neu waith mwynau sydd wedi datblygu fflora naturiol a sy'n gartref i rywogaethau niferus o drychfilod. Mae Dyffryn Maes Glas, Treffynnon a Pharc Gwepra, Cei Connah yn 'fannau gwyllt' neilltuol o werthfawr.

### *Strategaeth a Chynllun Gweithredu Tai Sir y Fflint, 2019-2024*

Mae'r Cyngor wedi nodi tair blaenoriaeth strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a fydd yn eu barn hwy yn darparu'r fframwaith iawn ar gyfer darparu cartrefi, cefnogi pobl a hyrwyddo cynaliadwyedd lle. Y rhain yw:

- Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math iawn o gartrefi yn y lleoliad iawn.
- Blaenoriaeth 2: Rhoi cymorth i sicrhau bod pobl yn byw ac yn aros yn y math iawn o gartref; a
- Blaenoriaeth 3: Gwella ansawdd a chynaliadwyedd ein cartrefi.

Mae blaenoriaethau'r Strategaeth Tai yn cydgyfeirio â'r rheini a bennir yn ein Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Lleol, yn ogystal â'r Cynlluniau Comisiynu Rhanbarthol a Lleol ar gyfer Cefnogi Pobl. Mae'r dogfennau strategol hyn wedi cael eu datblygu ar y cyd â'i gilydd er mwyn sicrhau bod eu gwaith yn ategu'i gilydd a'r egwyddorion gweithredu yn cael eu rhannu yn cynnnwys;

- Rhwystro digartrefedd;
- Bod, ac y bydd, llety addas ar gael i bobl sydd, neu a allai ddod, yn ddigartref;
- Bod cymorth boddhaol ar gael i bobl sydd, neu allai ddod, yn ddigartref.

Ffeithiau allweddol ar ansawdd tai:

- Mae 10.1% o anheddau a feddiennir yn y sector preifat ledled Sir y Fflint yn cynnwys aelwyd sydd mewn tlodi tanwydd
- Mae 1.6% o anheddau preifat heb wres canolog
- Mae chwarter yr anheddau a rentir yn breifat yn methu'r safonau cartrefi gweddus
- Gelli cywiro 30% o beryglon oerfel gormodol gydag ymyrraeth a fydd yn cael ei wrthbwyso gan arbedion i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol o fewn un flwyddyn
- Y deiliadau gyda'r ganran uchaf o anfodlonrwydd gyda chyflwr eu heiddo yw stoc tai y Cyngor a stoc a rentir yn breifat (2014)
- Mae'r Cyngor a Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £50m yn Safonau Ansawdd Tai Cymru i wella cyflwr gwael y stoc tai Cymru (a oedd i'w gwblhau yn 2020)

Gweledigaeth y Strategaeth Tai yw:

***"Gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol i arwain a darparu'r math iawn o dai o ansawdd uchel a'r cymorth mwyaf addas i ddiwallu anghenion tai ein poblogaeth."***



chris jones   rl.   creu lleoedd SIR Y FFLINT

***Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030, Cynllun Mabwysiedig, 24 Ionawr 2023***

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn dilyn ymlaen o'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd (2000-2015) ac mae'n ymwneud â'r cyfnod 2015 i 2030. Mae'r Cyngor wedi paratoi ei Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn unol â Chanllawiau a Pholisi Cynllunio cenedlaethol. Mae'r cynllun yn cynnig fframwaith cynllunio clir ar gyfer defnydd tir i ymdrin â phroblemau a chyfleoedd sy'n wynebu Sir y Fflint, gan anelu i roi sicrwydd i'w chymunedau a sail gadarn a chyson ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio.

Nod y cynllun yw galluogi cyflawni datblygu cynaliadwy mewn modd sy'n cydbwyso'r holl ofynion Llesiant mewn ffordd synhwyrol a chymesur, er mwyn galluogi'r datblygiad iawn i ddigwydd yn y lleoedd iawn.

Mae polisïau (strategol a manwl) a chynigion y cynllun wedi eu trefnu mewn modd thematig sy'n cynnwys y canlynol:

- Creu Lleoedd a Chymunedau Cynaliadwy
- Cefnogi Economi Lewyrchus
- Diwallu Anghenion Tai
- Gwerthfawrogi'r Amgylchedd.

Y prif heriau cynllunio a nodir ynddo yw:

- Anghenion poblogaeth sy'n tyfu ond yn heneiddio ac sydd ag anghenion tai penodol, ac angen cyffredinol am dai mwy fforddiadwy
- Yr angen i sicrhau cyflenwad o lafur medrus amrywiol i fodloni uchelgeisiau twf swyddi ac economaidd y Sir
- Economi cryf a ffyniannus, sy'n sbardun ac yn ganolfan ar gyfer yr is-ranbarth economaidd ehangach
- Cefnogi seilwaith, gan gynnwys tai, i ddiwallu'r uchelgais twf hwn
- Cymysgedd a math o dai i fodloni ystod o anghenion a dyheadau cymunedau
- Yr angen i leoli datblygiad yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy, ac iddo fod yn ddichonadwy a danfonadwy
- Yr angen i ddatblygu rhywfaint mewn cymunedau gwledig i helpu cadw bywiogrwydd y gymuned
- Datblygiad sy'n swyddogaethol, wedi'i ddylunio'n dda, yn lleihau ei ôl-troed carbon, a lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd
- Cymunedau cynaliadwy a chydlynol, gan gydnabod rôl a swyddogaeth ein hardal drefol, trefi marchnad, pentrefi, a phentrefannau gwledig yn yr hierarchaeth anheddiad cynaliadwy, a'r berthynas rhyngddynt.

- Gwell seilwaith trafnidiaeth a chyfleusterau sy'n cynnig gwell ddewis moddol a hygyrchedd at gymunedau
- Amddiffyn a chyfoethogi ein hamgylchedd naturiol, adeiledig, a hanesyddol, ei gymeriad, ansawdd ac amrywiaeth, a nodweddion arbennig lleol
- Cyfleoedd i bobl ein cymunedau arwain bywydau actif, iach, saff a diogel.

Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol yw:

***"Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud â phobl a lleoedd. Mae'n ceisio creu cydbwysedd cynaliadwy a pharhaol rhwng anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Sir y Fflint a'i thrigolion, trwy wireddu ei safle unigryw fel porth rhanbarthol ac ardal ar gyfer buddsoddi economaidd, gan warchod ei threftadaeth hanesyddol ddiwylliannol gref a'i hamgylchedd naturiol."***

Caiff Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol eu diffinio fel a ganlyn:

### Gwella Bywyd Cymunedol

1. Sicrhau bod gan gymunedau fynediad at gymysgedd o wasanaethau a chyfleusterau, fel addysg ac iechyd, i alluogi bywyd y gymuned i ffynnu, a diwallu anghenion grwpiau penodol fel yr henoed.
2. Annog datblygiad canol trefi ac ardaloedd fel canolbwynt adfywio.
3. Hyrwyddo system drafnidiaeth gynaliadwy a saff sy'n lleihaud dibyniaeth ar geir.
4. Hwyluso darpariaeth seilwaith trafnidiaeth, cyfleusterau a chymdeithasol / cymunedol angenrheidiol.
5. Hwyluso rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy.
6. Diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg.
7. Creu lleoedd sy'n saff, hygyrch ac sy'n annog a chefnogi iechyd da, llesiant a chydraddoldeb.

### Cyflawni Twf a Ffyniant

1. Hwyluso twf ac amrywiaeth yn yr economi leol a chynnydd mewn cyflogaeth medrus a gwerth uchel mewn sectorau allweddol.
2. Cefnogi datblygu sy'n gosod Sir y Fflint fel lle cystadleuol yn economaidd ac yn sbardun economaidd i'r is-ranbarth.
3. Ailbwrpasu rôl a swyddogaeth canol trefi Sir y Fflint yn gyrchfannau bywiog ar gyfer siopa, hamdden, diwylliant, dysgu, busnes a thrafnidiaeth.
4. Sicrhau bod gan Sir y Fflint y nifer, maint a math cywir o dai newydd i gefnogi datblygiad economaidd a diwallu ystod lawn o anghenion tai.
5. Sicrhau bod datblygu tai yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy lle bo safleoedd yn ddichonadwy ac ymarferol ac yn cael eu cefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol a ffisegol angenrheidiol.
6. Hyrwyddo a chyfoethogi economi wledig a chynaliadwy.
7. Cefnogi darpariaeth twristiaeth gynaliadwy.

### Gwarchod yr Amgylchedd

1. Lleihau achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd a llygredd.
2. Cadw a chyfoethogi asedau amgylcheddol ansawdd uchel Sir y Fflint gan gynnwys tirwedd, treftadaeth ddiwylliannol ac amgylcheddau naturiol ac adeiledig.
3. Cynnal a chyfoethogi rhwydweithiau seilwaith gwyrdd.
4. Hyrwyddo dylunion da sy'n unigryw yn lleol, yn arloesol ac yn sensitif i leoliad.
5. Cefnogi diogelu adnoddau naturiol fel dwr a'u defnyddio'n gynaliadwy a hyrwyddo datblygiad tir llwyd.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi cyfres o bolisïau cynaliadwy y mae angen i'r Cynllun Creu Lleoedd ymateb iddynt. Y rhain yw:

- Creu Lleoedd a Chymunedau Cynaliadwy
- Cefnogi Economi Lewyrchus
- Diwallu Anghenion Tai
- Gwerthfawrogi'r Amgylchedd.

Mae creu lleoedd cynaliadwy yn egwyddor bwysig sy'n cadarnhau strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol. Caiff lleoedd cynaliadwy eu creu o gydbwysedd o nodweddion cyfeillgar i'r amgylchedd, bywiog yn economaidd, a chynhwysol yn gymdeithasol, ac iddynt y nod o fod o fudd i genedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r trigolion presennol.

Nod lleoedd o'r fath yw eu bod yn cyflawni'r canlynol:

- Diwallu anghenion holl aelodau eu cymuned;
- Cynnig mynediad at gyfleoedd;
- Sicrhau bod gwasanaethau, seilwaith a chymorth ar gael;
- Darparu amrywiaeth o dai fforddiadwy o ansawdd uchel,
- Eu bod yn gydnerth ac yn gallu addasu i newid;
- Cynnwys datblygiadau a llecynnau o ansawdd uchel;
- Unigryw gyda synnwyr o le;
- Deniadol, cymdeithasol, hygyrch, gweithgar, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar;
- Wedi ystyried materion byd-eang a lleol;
- Ystyried y cyd-destun, swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle datblygu a'i amgylcheddau ehangach.

### PE7: Hierarchaeth Manwerthu

Bydd datblygiadau manwerthu, hamdden a masnachol yn cael eu cyfeirio tuag at yr hierarchaeth ganlynol fel y nodir ar y map cynigion.

| Haen | Canolfannau | |
|---|---|---|
| Canol Trefi | Bwcle, y Fflint, Treffynnon, Yr Wyddgrug, Shotton | |
| Canolfannau Ardal | Cei Connah, Queensferry, Saltney | |
| Canolfannau Lleol | Bagillt – Stryd Fawr | Garden City – Welsh Road |
| | Brychdyn – Broughton Hall | Maes Glas – Parade Penarlâg |
| | Rd Bwcle – Lane End | Treffynnon – Holway Yr Hôb |
| | Caergwrle Caerwys | Mostyn – Maes Pennant |
| | Cei Connah – Thornfield | Mynydd Isa – The Square |
| | Ave Cei Connah – | Penyffordd / Penymynydd |
| | Englefield Ave Cei Connah | Treffynnon – Aston Park Road |
| | – Ffordd Llanarth Ewlo – | Treffynnon - Central Drive |
| | The Highway | |
| | Ewlo – Holywell Road | |
| | Fflint – Northop Road | |
| | Ewloe – The Highway | |
| | Ewloe – Holywell Road | |
| | Flint – Northop Road | |

Bydd cynigion sy'n addas o ran graddfa a math ar gyfer canolfan benodol yn cael eu cefnogi.

Mae rhai polisïau penodol seiliedig ar le a amlinellir yn cynnwys:

### STR9: Canolfannau Manwerthu a Datblygiad

Bydd datblygiadau manwerthu yn cael eu harwain gan HierarchaethManwerthu'r Sir. Bydd y dull yma yn amcanu at gynnal a gwella bywiogrwydd,hyfywedd ac apêl canolfannau tref, rhanbarth a lleol Sir y Fflint, gan gefnogidarparu cyfleusterau manwerthu cyfleus, swyddfeydd, hamdden, adloniant adiwylliannol priodol.

Canolfannau manwerthu fydd y lleoliad a ffafrir ar gyfer dibenion manwerthu,hamdden, swyddfeydd, cymdeithasol newydd ac eraill mewn canol trefi. Byddangen i ddatblygiadau mawr gydymffurfio ag egwyddorion 'canol trefi yn gyntaf'Polisi Cynllunio Cymru o ran Prawf Angen, Prawf Dilyniannol ac Asesiad o Effaith Manwerthu.

O ystyried rôl gyfnewidiol canol trefi, mae Canol Trefi ac Ardaloedd Siopa Sylfaenol yn cael eu diffinio drwy gydnabod yr angen am beth hyblygrwydd o ran cynnal meddiannaeth a nifer ymwelwyr, ac er mwyn galluogi defnyddio dull wedi ei deilwra ar gyfer pob canolfan gan ystyried gwiriadau iechyd, uwch gynlluniau a chynlluniau gweithredu.

***Cyngor Tref Treffynnon - Cynllun Busnes 2022-2027***

Dyma bedwerydd Cynllun Busnes Cyngor Tref Treffynnon. Mae'r Cynllun yn gosod gweledigaeth, amcanion a phrosiectau allweddol y Cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf 2022-2027 hyd at yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf. Bwriad y Cyngor yw llunio cynllun newydd ar ddechrau pob tymor etholiadol newydd.

Mae'r cynllun yn adeiladu ar lwyddiannau'r cynlluniau cynharach a'r unig ffordd o'i wireddu fydd os bydd y cydweithio a'r gwaith partneriaeth yn parhau gyda nifer o randdeiliaid gan gynnwys Cyngor Sir y Fflint, Grŵp Busnes Treffynnon, Sefydliadau Cymunedol, Cadwyn Clwyd a grwpiau eraill. Adolygodd y Cyngor ei strwythur pwyllgorau a'i gylch gorchwyl yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2022. Mae pob un o'r prosiectau rhestredig yn cael eu noddi gan un o'r pwyllgorau a'i aelodau.

Mae prosiectau allweddol nodedig yn cynnwys ailagor hen Orsaf Reilffordd Cyffordd Treffynnon a gaeodd yn 1964, gwella cysylltiadau teithio llesol, gwella'r seilwaith trafnidiaeth, a gwella nodweddion yng nghanol y dref.

Amcan Strategol

***"Cyd-drafod â rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned leol i fynd ati o ddifrif oi ddatblygu a hyrwyddo'r dref a'r ardal ehangach fel cyrchfan o ansawdd uchel i ymwelwyr a lle i fyw, gweithio a siopa. Gwneud defnydd llawn o'r cyfleoedd treftadaeth a thwristiaeth unigryw sy'n bodoli yn ei ardal."***

Blaenoriaethau Allweddol

1. Cysylltu'r dref â Dyffryn Maes Glas, Doc Maes Glas, Llwybr Arfordir Cymru a'r Parc Treftadaeth, Parc Busnes Maes Glas ac Ystad Ddiwydiannol a'r Ffynnon Sanctaidd. Mae'r awgrymiadau cychwynnol yn cynnwys prif orsaf drenau rheilffordd a gwasanaeth metro yn Maes Glas, llwybr beicio o lwybr yr arfordir, gwasanaethau bysiau gwennol a cymunedol, gan gwmpasu trefniadau teithio llesol.
2. Sefydlu Treffynnon fel cyrchfan ymwelwyr o safon a lleoliad o'r radd flaenaf ar gyfer digwyddiadau canol y dref. Sefydlu pwyntiau gwybodaeth cymunedol i dwristiaid a threfniadau ar gyfer dosbarthu taflenni iddynt. Datblygu gwefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Datblygu cysylltiadau ag Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas a Ffynnon y Santes Gwenffrewi.
3. Cynnal darpariaeth asedau gan gynnwys toiledau cyhoeddus yn y dref a sicrhau lle digonol mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt ar gyfer parcio ceir, gan gynnwys mannau gwefru ceir trydan.
4. Adfywio cymunedau Treffynnon a Maes Glas, sy'n cyd-fynd â Chynlluniau Datblygu Cyngor Sir y Fflint.
5. Cydweithio rhwng y Cyngor Sir a Chyngor y Dref. Gwella a datblygu cyd-drafod cymunedol â busnesau lleol a grwpiau cymunedol gyda phwyslais ar greu partneriaethau.
6. Cynnal blaenoriaethau gwasanaeth eraill fel grantiau, cyfraniadau, iechyd a diogelwch, llywodraethu, prosesau cyllid a busnes a rheoli cyfleusterau.

Themâu Allweddol

### CYSYLLTIADAU TRAFNIDIAETH

- Gorsaf Reilffordd Maes Glas
- Teithio Llesol
- Bws Gwennol a Bws Cymunedol

### CYRCHFAN YMWELWYR O ANSAWDD UCHEL

- Ardal Digwyddiadau Gerddi'r Tŵr
- Amgueddfa
- Arwyddion A55 a'r Pyrth
- Pwyntiau Gwybodaeth i Ymwelwyr
- Ennyn Diddordeb Ymwelwyr
- Dyffryn Maes Glas
- Ffynnon y Santes Gwenffrewi / Eglwys Plwyf Sant Iago

### DATBLYGU CYMUNEDOL

- Toiledau Cyhoeddus
- Llecynnau Agored – Gerddi, Coetiroedd

### ADFYWIO

- Annog presenoldeb stondinwyr ac amrywiaeth ym marchnad wythnosol y dref
- Gwella canol y dref a nodweddion cymunedol lleol
- Lleoedd Parcio / Pwyntiau Gwefru Ceir
- Gorsafoedd ail-lenwi dŵr

### GWEITHIO CYDGYSYLLTIEDIG AR Y CYD Â PHARTNERIAID

- Cyngor Sir y Fflint, Grŵp Busnes, AS/AoSau lleol, Heddlu Gogledd Cymru, Grwpiau Cymunedol

### CYNNAL DARPARIAETH GWASANAETHAU CRAIDD

- Gwasanaethau teledu cylch cyfyng yng nghanol y dref
- Grantiau a Chyfraniadau – Offer Chwarae a Sefydliadau Lleol
- Cymorth i Gynlluniau Chwarae



# PROFFIL CYMUNEDOL AC ECONOMAIDD

### Poblogaeth

Mae 9,200 o bobl yn byw yng Nghymuned Treffynnon

(Cyfrifiad 2021)

### Dosbarthiad Oed

Mae Treffynnon yn dangos gostyngiad bach yn y nifer o unigolion yn y grŵp oedran 20-34 (17.7%). Er nad yw'n sylweddol wahanol i Gymru gyfan (18%) mae'n llawer is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr (19.5%). Gellir priodoli ffigur is Treffynnon i allfudiad pobl ifanc mewn oedran gweithio. Mae poblogaeth pobl 50-64 mlwydd oed yn Nhreffynnon (20.8%) yn debyg i ganran Cymru gyfan (20.5%).

### Iaith

Iaith – Mae'r ystadegau'n dangos bod trigolion Treffynnon yn llai rhugl mewn Darllen, Siarad ac Ysgrifennu Cymraeg (12.6%, 12.7% a 10.3% o drigolion a all ddarllen, siarad, ac ysgifennu Cymraeg) na phoblogaeth gyffredinol Cymru sydd â'r sgiliau hyn (17.3%, 17.8%, a 15.2%).

### Tai

Mae'r gyfran o deuluoedd sy'n berchen eu cartrefi yn Nhreffynnon (59%) yn is na'r hyn yw yng Nghymru gyfan (66.1%), ac yng Nghymru a Lloegr (61.6%). Yr ail fath mwyaf cyffredin o ddeiliadaeth a geir yn Nhreffynnon yw 'Tai Rhent Cymdeithasol' (24.6%). Mae'r gyfran o dai rhent cymdeithasol yn sylweddol fwy na chyfartaledd Cymru (16.5%), a Chymru a Lloegr (17.1%)

### Galwedigaethau

Mae'r nifer o drigolion yn Nhreffynnon sydd ar lefelau uwch neu mewn galwedigaethau proffesiynol yn is na chyfartaledd Cymru, a Chymru a Lloegr. Mae 8% o boblogaeth Treffynnon wedi disgrifio'u hunain fel rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion o gymharu â Chymru gyfan (10.5%) a Chymru a Lloegr (12.8%).

### Troseddu

Mae ystadegau Troseddu'r DU yn dangos bod y Stryd Fawr yn cael ei tharo'n anghymesur ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol (80 o ddigwyddiadau) o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (20). Mae dwyn o siopau a throseddau treisgar a rhywiol hefyd yn arwyddocaol o uchel ar 83 o ddigwyddiadau o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 40 o droseddau.

### Galwedigaethau

Mae gan Dreffynnon gyfran uwch o'i thrigolion mewn swyddi mwy medrus/ swyddi llafurio. Mae 13.3% o'i thrigolion mewn galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill o gymharu â 11.2% o gyfanswm poblogaeth Cymru. Mae 13.3% o boblogaeth waith Treffynnon yn cyfrif am swyddi prosesu a gweithredu peiriannau o gymharu â 7.9% yng Nghymru a dim ond 7.0% yng Nghymru a Lloegr.

### Cymwysterau

Mae lefelau uwch o unigolion 16+ heb ddim cymwysterau (23.4%) o gymharu â Chymru (19.9%) a Chymru a Lloegr, ar gyfartaledd (18.2%). Mae gan y dref hefyd gyfrannau uwch o unigolion sydd â chymwysterau lefel 1 a lefel mynediad (11.2%) fel lefel uchaf eu cyrhaeddiad addysgol o gymharu â Chymru (8.7%) a Chymru a Lloegr (9.6%). Yn yr un modd, mae gan 16.1% o'r trigolion dros 16 oed yn Nhreffynnon gymwysterau Lefel 2 fel lefel uchaf eu cyrhaeddiad o gymharu â 14.4% yng Nghymru. Mae gan Dreffynnon gyfran sylweddol is o drigolion sydd â chymwysterau lefel 4 neu uwch (23.4%) o gymharu â Chymru (31.5%) a Chymru a Lloegr (33.8%).

### Gweithgarwch Economaidd

Ymddengys fod y gyfran o bobl economaidd-weithgar (ac eithrio myfyrwyr) yn Nhreffynnon (55.4%) ychydig yn uwch na'r hyn yw ar gyfer Cymru gyfan (54.4%). Mae'r ddwy ganran yn is na chyfartaledd Cymru a Lloegr (58.3%). Mae'r economaidd anweithgar yn Nhreffynnon yn cyfrif am 42.6% o'r boblogaeth. Mae hyn yn is na Chymru gyfan ar 43.5% ond yn fwy na Chymru a Lloegr ar gyfartaledd (39.4%).

### Cerbyd

Mae'r gyfran o aelwydydd heb gar yn Nhreffynnon (22%) yn fwy nag yng Nghymru (19.4%) ond yn llai nag yn Lloegr (23.3%). Y ffordd fwyaf cyffredin o deithio i'r gwaith yn Nhreffynnon yw mewn car a fan (64.9%), dyma hefyd sydd fwyaf cyffredin ar gyfer Cymru (56.5%) a Chymru a Lloegr (45.1%) ond ar ganrannau is. Ymddengys fod beicio yn sylweddol llai poblogaidd yn Nhreffynnon nag yng Nghymru, sydd i'w briodoli'n fwyaf tebygol i'r elltydd yn Nhreffynnon.

### Iechyd

Mae 44% o drigolion Treffynnon yn graddio eu hiechyd fel da iawn o gymharu â 46.2% o bobl Cymru ar gyfartaledd, gyda'r rheini sy'n graddio eu hunain fel rhai ag 'iechyd gwael' ar 5% neu 'iechyd gwael iawn' ar 1.9%, o gymharu â chanrannau o 5.3% a 1.7% ar gyfer Cymru gyfan.

### Teithio

Mae 41.5% o boblogaeth waith Treffynnon yn teithio mwy na 10km i fynd i'r gwaith o gymharu â 24.1% yng Nghymru, a 19% yng Nghymru a Lloegr ar gyfartaledd, gan awgrymu cyfleoedd cyfyngedig am gyflogaeth yn lleol, gyda dim ond 14.2% o'r boblogaeth yn Nhreffynnon yn gweithio o gartref o gymharu â 25.6% yng Nghymru ar gyfartaledd.

# CYNNIG MASNACHOL AC EIDDO GWAG

### *Oriau Agor Masnachol*

Mae canol y dref yn gryno, ond yn fywiog ac amrywiol gyda llawer o unedau siopau yn cael eu meddiannu gan ganwerthwyr annibynnol neu leol, gydag ychydig o enwau cenedlaethol fel Iceland. Mae'r Stryd Fawr yn cynnig nifer o wasanaethau megis Swyddfa'r Post, cyfreithwyr, gwerthwyr tai a gwerthwyr blodau ynghyd â nifer o siopau dillad annibynnol, salonau harddwch a siop cyflenwadau anifeiliaid anwes hefyd.

Mae canol y dref yn cynnal marchnad wythnosol Treffynnon bob dydd Iau ac yn cynnwys rhes fach o siopau sydd â meddiannaeth dda ac sy'n cynnig ffrynt da i'r gofod hwn gan wneud iddo deimlo'n groesawgar ac yn ddiogel. Mae tair uned wag, un ohonynt yw'r uned gornel fwy, a byddai llenwi'r uned hon yn gwella'r fynedfa i'r ardal.

Ar y Stryd Fawr mae tua 26 o unedau gwag, a oedd yn gymysgedd o rai i'w gosod ac i'w gwerthu. Mae'r unedau tuag at ben Stryd Groes o'r Stryd Fawr yn fwy adfeiliedig ac yn amharu ar apêl weledol y rhan hon o'r Stryd Fawr.

Mae canol y dref yn gweithredu model 8am – 5pm ar y cyfan gyda rhai amrywiadau'n cael eu gweld gyda'r manwerthwyr bwyd mwy sydd wedi'u lleoli wrth ymyl y stryd fawr.

Er bod ambell i dafarn a rhai siopau cludfwyd, cyfyngedig yw economi'r nos ar y Stryd Fawr.

### *Gwerthoedd Ardrethol*

Rydym wedi cymharu'r cyfraddau sylfaenol a fabwysiadwyd yn Nhreffynnon â lleoliadau cystadleuol cyfagos, lle mae deiliaid yn debygol o ystyried a chymharu wrth ystyried gweithredu busnes yn yr ardal. Mae'r cyfraddau sylfaenol a ddefnyddir yn y tri lleoliad yn weddol gyson, gyda'r Wyddgrug â'r ystod uchaf o ystyried ei ddeinameg marchnad gryfach. Mae'r dystiolaeth gymaradwy a ganfuwyd yn amlygu bod lefel sylweddol o stoc yn syrthio'n is na'r trothwy o £12,000 lle mae meddianwyr yn elwa o ychydig o ryddhad ardrethi busnes ac felly, mae lleoedd yn dod yn llawer mwy fforddiadwy a hygyrch.

Gwnaethom hefyd gofnodi symudiad cyfraddau rhwng asesiad 2017 a'r mwyaf diweddar yn 2023, asesiadau sy'n dod i rym o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Ar gyfer Treffynnon, mae'n ymddangos bod cyfraddau'n gostwng ychydig gan adlewyrchu perfformiad segment gwannach o'r farchnad dros oddeutu'r 5 mlynedd diwethaf.

### *Rhenti Busnes a Chymaradwy*

Cyfyngedig fu'r gosodiadau manwerthu yn Nhreffynnon ei hun dros y 3 blynedd diwethaf, gyda'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn canolbwyntio ar y Fflint a marchnadoedd lleol eraill. Mae Stryd Fawr Treffynnon yn cynnwys busnesau manwerthu lleol bach a busnesau gwasanaethau, wedi'u gwasgaru â rhai deiliaid cenedlaethol megis Swyddfa'r Post.

Bu dau osodiad manwerthu yn Stryd Fawr Treffynnon, y ddau yn dyddio'n ôl i ddiwedd 2020 a oedd yn dangos cyfraddau tebyg iawn o £8.60 ac £8.93 y droedfedd sgwâr ar gyfradd unffurf, a £14.25 a £15.63 y droedfedd sgwâr ITZA; mae'r gosodiadau hyn yn rhoi syniad am werthoedd rhent yn yr ardal ar gyfer unedau manwerthu hylaw bach.

| **Manwerthu / Troedfedd Sgwâr ITZA** | **Swyddfeydd / Troedfedd Sgwâr** | |
|---|---|---|
| Bwcle | £17-£19 | £5.5-£9 |
| Treffynnon | £13-£18 | £5.5-£8 |
| Shotton | £15-£18 | £5.5-£8 |
| Yr Wyddgrug | £17-£28 | £6-£10 |
| Y Fflint | £15-£18 | £5.5-£8 |

Yn ogystal, mae un safle manwerthu yn 13 Stryd Fawr sydd ar y farchnad ar hyn o bryd gyda phrisiau gofyn sy'n cyfateb i £10.48 fesul troedfedd sgwâr cyfradd unffurf a £22.56 y troedfedd sgwâr ITZA sy'n ymddangos yn uwch na'r hyn y disgwylid ar gyfer y lleoliad hwn.

Pan gafodd yr holl dystiolaeth leol ei ddadansoddi, roedd trafodion manwerthu yn dangos amrywiaeth o rhwng £6-£10 y droedfedd sgwâr ar sail cyfradd unffurf. Fodd bynnag, wrth anwybyddu'r gyfradd isaf a gafwyd yn Stryd yr Eglwys yn y Fflint, gan fod hwn yn safle manwerthu sylweddol fwy a y digwylir iddo ddenu gwerthoedd cyfradd unffurf is, roedd yr ystod yn llawer tynnach o rhwng £8-10 y droedfedd sgwâr ac mae'n fwy o adlewyrchiad o naws gyffredinol y farchnad ar gyfer Treffynnon ar gyfer stoc o faint hylaw.

Mae gosodiadau manwerthu wrth eu hystyried ar sail Termau Parth A (In Terms of Zone A - ITZA) yn dangos ystod o £14-£21 y droedfedd sgwâr. Mae rhenti uchaf ITZA yn rhanbarth Treffynnon i'w gweld mewn lleoliadau ar y Stryd Fawr a'r prif graidd manwerthu, a oedd yn gofyn am cyfraddau o hyd at £21 y droedfedd sgwâr.

***Arenillion Masnachol a Chymariaethau***

Ni chafwyd unrhyw werthiannau buddsoddiadau, gyda thenantiaid yn eu lle yn Nhreffynnon a dim ond un yn nhref y Fflint. Roedd y gwerthiant yn drafodiad buddsoddi mewn Fferyllfa Rydd-ddaliol. Gwerthwyd yr Eiddo cyn arwerthiant ym mis Tachwedd 2022 am £280,000 gan adlewyrchu cynnyrch cychwynnol gros o 9.29% ac oddeutu 9.01% ar ôl costau prynwr nodweddiadol. Cafodd yr eiddo ei osod yn gyfan gwbl i Boots UK Limited ar brydles 5 mlynedd newydd ar rent blynyddol o £26,000 y flwyddyn.

Er nad oes fawr ddim tystiolaeth ddiweddar sy'n dangos arenillion yn Nhreffynnon, mae'n rhesymol tybio y byddant yn gyson â'r tueddiad ar gyfer buddsoddiadau ar draws rhanbarth Sir y Fflint. Ar hyn o bryd mae hyn rhwng 8% a 10% ar gyfer mwyafrif y stoc fuddsoddi gyffredinol, gydag 8% yn adlewyrchu buddsoddiadau ac arenillion mwy sicr yn gwthio allan tuag at 10% i'r rhai sydd â nodweddion, cyfamodau meddiannwyr a thelerau prydles llai ffafriol.



### *Cymysgedd o ddibenion a gweithgareddau*

Mae'r siartiau ar y dde yn dangos y gymysgedd o ddibenion a gweithgareddau o fewn ffin Canol y Dref.


Mae Ffigur 3 yn dangos i ni'r graddau mae ardal canol y dref yn caenolbwyntio ar wasanaethau - sy'n dilyn tueddiad y DU, gydag iechyd a harddwch, gwerthwyr tai a gwasanaethau proffesiynol eraill a siopau cludfwyd yn cynrychioli 44% o holl ddefnydd canol y dref. Yn arbennig mae nifer o fanciau wedi cau yn y Stryd Fawr gyda Santander yn unig ar ôl.

Caiff siopau cyfleustra eu cynrychioli'n bennaf gan Tesco, Lidl, Iceland a siop gyfleustra fach. Nid yw siopau bwyd lleol fel y cigyddion a'r bwydydd gwyrdd wedi llwyddo i gystadlu â siopau mwy. Mae siopa cymhariaeth yn wan mewn perthynas â dillad a ffasiwn gyda'r prif gynrychiolaeth yn anrhegion a chardiau, gwerthwyr blodau a gardd. Yr unig fanwerthwyr cymharu cenedlaethol yw Home Bargains a Peacocks (er bod disgwyl i hyn gau).

Wrth edrych yn ofalus ar y dibenion, mae bwyd a diod yn cael eu cynrychioli'n bennaf gan nifer o dafarndai, caffis/siopau coffi a thrwy siopau cludfwyd. Yr unig fwyty yw'r bwyty Indiaidd yn Whitford Street. Mae'r angen am amrywiaeth ehangach o fwyd sy'n dod â bywyd i ganol y dref, yn ystod y dydd a'r nos, yn bwysig o ran sut mae pobl yn defnyddio canol y dref, sydd â'r amgylchedd iawn i gefnogi gweithgarwch ar y palmant.


Mae cyfraddau eiddo gwag yn uchel, o'i gymharu â chyfartaledd y DU (15%), gyda'n gwaith arolygu safle yn sylwi bod 26% o'r holl eiddo yng nghanol y dref ar y llawr gwaelod yn wag. Mae'r rhain yn tueddu i fod ar ffyrdd Stryd Chwitffordd a'r Stryd Groes gyda rhai unedau sylweddol yn wag ar draws y brif Stryd Fawr. Mae Gerddi'r Tŵr yn dechrau dangos arwyddion o glwstwr manwerthu cryf, er bod un neu ddwy o unedau mwy nad ydynt wedi'u meddiannu.

Ffigur 1 – Dadansoddiad o Ddefnyddiau Canol y Dref yn ôl Dosbarth Defnydd





Ffynhonnell: Chris Jones Regeneration

Ffigur 2 – Dadansoddiad o'r defnydd a wneir o Ganol y Dref yn ôl segment;




Ffynhonnell: Chris Jones Regeneration

Ffigur 3- Dadansoddiad o'r defnydd a wneir o Ganol y Dref yn ôl gweithgaredd;




Ffynhonnell: Chris Jones Regeneration

### *Strydlun Canol Tref Treffynnon*
























Source: Chris Jones Regeneration

# DADANSODDIAD O FFRYNTIAD STRYDOEDD

Mae gan ganol y dref werth treftadaeth a stori gref, ond yn gyffredinol nid yw ei strydlun yn cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol, sy'n ddeniadol i ddefnyddwyr canol y dref nac yn gysylltiedig â'r parth cyhoeddus cyfagos.

O'r fynedfa ogledd-orllewinol, cewch argraffiadau cyntaf gwael trwy ffryntiadau masnachol sydd wedi gweld dyddiau gwell a safleoedd gwag, gyda rhai o'r rhain ar gyffyrdd a lleoedd allweddol i grwydro ohonynt, gan roi profiadau llai na ffafriol. Er bod gan Whitford Place botensial fel sgwâr bach bywiog mae nifer sylweddol o ffryntiadau gwag neu anweithredol nad ydynt yn bywiog nag yn dod â gweithgarwch i'r gofod cyfagos.

Gyda golygfa gref sy'n eich tynnu i fyny'r Stryd Fawr mae nifer o adeiladau dinesig sylweddol sydd naill ai'n wag neu heb fuddsoddiad. Mae Gerddi'r Tŵr, er eu bod yn fodern eu ffurf, yn dechrau cyflwyno profiad cydlynol gyda nifer o siopau annibynnol cryf sy'n ymfalchïo yn eu ffryntiadau, gan ychwanegu lliw a gweithgarwch o fewn ffenestr y siop ac mewn nwyddau stryd. Mae'r rhain yn cynnwys y gwerthwyr blodau, arbenigwyr bleindiau ffenestri, salon iechyd a harddwch, siop siocled, siopau cardiau ac anrhegion a mwy.

Nid yw cornel dde-ddwyreiniol canol y dref wedi'i chydlynu, gyda chymysgedd o adeiladau dinesig cryf fel Victoria Hotel yn gweithredu fel tirnod allweddol ond yn eistedd ochr yn ochr â rhai addasiadau modern sy'n amharu ar y teulu o arddulliau pensaernïol. Ynghyd â pharth cyhoeddus sydd wedi'i ddylunio'n wael, mae'r ymyl hon o ganol y dref yn ddryslyd ac yn brin o drefn.



## CRYNODEB O 'GIVE MY VIEW'

Fel rhan o'r ymgynghoriad cymunedol, defnyddiodd Cyngor Sir y Fflint y platfform digidol 'Give My View' a hyrwyddwyd drwy ymgyrch cyfryngau cymdeithasol. Cynhyrchodd yr ymgyrch hon:

- 146,407 o argraffiadau
- 25,020 o gyraeddiadau, gyda
- 1,594 o bobl yn clicio ar yr arolwg

Ar ôl clicio ar yr arolwg, cwblhawyd 1143 o arolygon a derbyniwyd 830 o sylwadau agored a oedd yn cefnogi'r dadansoddiad o anghenion lleol a'r blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Creu Lleoedd.

Roedd yr ymgyrch cyfryngau cymdeithasol yn fwyaf effeithiol gyda chynulleidfaoedd mwy aeddfed, gyda'r rhai dros 65 oed yn dangos y lefel uchaf o gymryd rhan, ac yna'r rhai rhwng 55 a 64 oed. Facebook oedd y platfform mwyaf llwyddiannus gydag Instagram yn dod yn ail.

**42%** *Pobl yn teimlo bod canol tref Treffynnon yn groesawgar*

**34%** *Pobl yn teimlo'n gadarnhaol am yr hyn sydd gan ganol y dref i'w gynnig ar hyn o bryd*

**40%** *Pobl o'r farn fod gan Dreffynnon gysylltiadau da â gwasanaethau a chyfleusterau lleol*

*Ansawdd bywyd a diogelwch yw'r flaenoriaeth uchaf i drigolion*




**Un gair cadarnhaol am ganol tref Treffynnon ar hyn o bryd**




**Un gair negyddol am ganol tref Treffynnon ar hyn o bryd**

### Y prif welliannau i'w gwneud yng nghanol tref Treffynnon yw:

- Eiddo gwag 81%
- Gwasanaethau 57%
- Parcio 19%
- Mwy o wyrddni 13%
- Parciau 6%
- Palmentydd 5%

### Y 3 phrif reswm dros ymweld â chanol tref Treffynnon yw:

- Siopa groser 67%
- Gwasanaethau 48%
- Cyfarfod teulu a ffrindiau 18%

### Beth yw'r 5 prif beth i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol?

- Cyfleoedd siopau 76%
- Gwelliannau i adeiladau 43%
- Digwyddiadau cymdeithasol a chymunedol 37%
- Cyfleusterau hamdden 34%
- Iechyd a llesiant 26%

### Pa mor aml mae pobl yn ymweld â chanol tref Treffynnon?

- Bob dydd 8%
- Sawl gwaith yr wythnos 34%
- Unwaith yr wythnos 25%

### Sut mae pobl yn mynd i ganol tref Treffynnon?

- Car 85%
- Cerdded 32%
- Bws 6%

### Pa amser o'r dydd mae pobl yn ymweld?

- Bore 46%
- Amser cinio 16%
- Prynhawn 38%
- Gyda'r nos 23%

### Pa mor hir mae pobl yn aros?

- Dw i mewn ac allan 72%
- Treulio ychydig oriau 28%

# Y LLE - LLEOLIAD A CHEFNDIR

Tref farchnad yn Sir y Fflint yw Treffynnon ac fe'i henwir ar ôl Ffynnon Santes Gwenffrewi. Mae'r ffynnon yn safle pererindod Gristnogol ac fe'i hystyrir yn un o saith rhyfeddod Cymru.

Saif ychydig i'r gogledd o wibffordd yr A55 trwy ogledd Cymru. Mae hyn yn cynnig mynediad ardderchog i Gaer a'r Wyddgrug i'r dwyrain a Llandudno ac Ynys Môn i'r gorllewin. Mae ffordd arfordirol yr A548 yn rhedeg i'r gogledd o'r dref ac yn darparu cysylltiadau da â'r trefi a'r pentrefi ar hyd arfordir Gogledd Cymru.

Mae rheilffordd Caergybi i Gaer yn rhedeg i'r gogledd o'r dref, ond caewyd gorsaf reilffordd Treffynnon yn 1966.

Mae Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas yn rhedeg i'r gogledd allan o'r ddinas. Mae hyn yn ffurfio coridor gwyrdd a pharc sy'n cynnwys coetir, cronfeydd dŵr a henebion sy'n cysylltu canol y dref â'r foryd.

Mae gan Treffynnon amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau sy'n helpu i ddiwallu anghenion beunyddiol ei thrigolion. Mae gan ganol y dref amrywiaeth o gyfleoedd manwerthu a hamdden ochr yn ochr ag archfarchnadoedd mwy. Mae nifer o ysgolion wedi'u lleoli yn y dref sy'n darparu ar gyfer oedran ysgol gynradd ac ysgol uwchradd. Mae sawl meddygfa ac Ysbyty Cymunedol Treffynnon hefyd yn rhoi darpariaeth iechyd i'r dref.






Source: Google Earth Aerial Map

# PYRTH CERBYDAU

Mae Stryd Fawr Treffynnon wedi'i lleoli rhwng dau borth i gerbydau sy'n cysylltu ffyrdd cerbydau allweddol â chanol y dref o'r gogledd a'r de.

O'r dwyrain mae'r porth yn ardal o dirwedd agored heb unrhyw nodweddion diffiniol. Dim ond arwyddion sy'n dangos mai dyma'r llwybr allweddol i ganol y dref.

Mae Gwesty'r Victoria yn adeilad allweddol yn y dref ac mae'n borth i'r Stryd Fawr. Fodd bynnag, mae'r ffordd yn gadael i chi weld canol y dref wrth i chi fynd heibio iddo gan ei fod yn gwasanaethu fel allanfa yn unig o'r Stryd Fawr.

Mae'r A5026 yn rhedeg o amgylch cefn y Stryd Fawr. Mae'n ffordd eang gyda rhai ardaloedd o dirwedd braf ond mae cefn o adeiladau a meysydd parcio hefyd yn helpu i greu amgylchedd trefol gwael sydd o dan oruchafiaeth cerbydau.

Mae'r porth allanol gorllewinol yn cael ei ffurfio gan ardal o dirwedd agored wrth ymyl yr orsaf dân anneniadol. Dim ond arwyddion sy'n dangos mai'r brif ffordd i ganol y dref yw hon.

Mae porth Stryd Chwitffordd i ganol y dref yn amwys heb unrhyw adeiladau na nodweddion unigryw i groesawu pobl i mewn.

O borth Stryd Whitford mae'n anodd dilyn ffordd ddryslyd i'r prif faes parcio ac mae'n aneffeithiol wrth groesawu pobl i'r dref.






chris jones  rl.  creu lleoedd SIRYFFLINT

## PYRTH CERDDWYR

Mae’r llwybr allweddol i gerddwyr i ganol y dref o’r gorllewin yn cael ei ffurfio gan ochrau agored a chefnau adeiladau ac nid yw’n creu amgylchedd croesawgar. Fodd bynnag, gallai gwelliannau i’r maes hwn greu porth newydd trawiadol i’r dref.

O ben y Stryd Fawr mae cyswllt deniadol a ddiffinnir gan adeiladau hanesyddol hyd at Barc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas. Mae’r llwybr i gerddwyr drwy’r maes parcio ac i mewn i’r Stryd Fawr wedi’i ddiffinio’n wael, gyda chelf gyhoeddus fel yr unig arwydd o fynedfa. Mae cyfle i drefnu’r maes parcio yn well er mwyn rhoi mwy o amlygrwydd i’r llwybr drwodd i’r Stryd Fawr.

Ar hyd yr A5026 mae cyfres o gysylltiadau wedi’u diffinio’n wael, yn llawn meysydd parcio sy’n rhoi’r argraff eu bod ar gyfer cerbydau yn hytrach na cherddwyr.

Mae’r llwybr trwy faes parcio Tesco rhwng canol y dref a Pharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas yn ddeniadol ar ben y dref drwy ardal brysur a neilltuwyd i gerddwyr. Fodd bynnag, mae’n parhau trwy danffordd ac i faes parcio Tesco a allai annog pobl i beidio â’i ddefnyddio.

Mae gan y llwybr i’r Ganolfan Hamdden trwy Panton Place a’r gerddi lawer o gymeriad a swyn.

Mae gan y porth dwyreiniol barth cyhoeddus heb ei ddiffinio’n dda ac mae’n ymddangos yn fwy fel cylchfan cerbydau o amgylch Gwesty Victoria gyda rhwystrau yn cyfyngu ar gerddwyr drwy’r ardal.



## HERIAU A CHYFLEOEDD

Mae canol tref Treffynnon mewn lleoliad canolog yn y dref ac yn gyffredinol o fewn pellter cerdded o'r rhan fwyaf o ardaloedd y dref. Byddai cyfle i wella cysylltiadau cerddwyr i mewn ac allan o ganol y dref, yn enwedig ar draws yr A5026 yn helpu i wella ei hygyrchedd ymhellach.



Mae'r A5026 yn helpu i ffurfio porth gwyrdd i'r dref

Mae'r A5026 yn brif lwybr drwy'r dref ac yn creu porth 'gwyrdd' deniadol i ganol y dref trwy Barc Fron a'r Ganolfan Hamdden. Fodd bynnag, nid yw cerbydau'n cael eu 'hyrwyddo' i ddefnyddio'r llwybr hwn i'r dref ac yn hytrach fe'u hanfonir ar daith fwy cylchol o amgylch cefn canol y dref cyn gallu cael mynediad ato o Stryd Chwitffordd.

O amgylch Canolfan Hamdden Treffynnon mae cyfres o gysylltiadau cryf ac uniongyrchol yn rhedeg rhwng maes parcio canol y dref a'r A5026. Mae'r rhain yn cynnig gwell mynediad i ganol y dref trwy borth 'gwyrdd' yr A5026.



Mae'r A5026 yn ffurfio amgylchedd gwael o amgylch cefn canol y dref

Mae amgylchedd gwael i gerddwyr yn cael ei greu o amgylch cefn canol y dref gyda'r A5026 yn creu amgylchedd dan oruchafiaeth ceir a meysydd parcio a chefnau adeiladau sy'n cynnig ychydig iawn o ran gwyliadwriaeth na gweithgarwch. Mae ardaloedd o wyrdd a thirlunio yn ffinio â'r A5026 y gellid eu gwella gyda strategaeth tirwedd unedig sy'n helpu i amgylchedd unigryw a hudolus a phorth gwell i'r dref.

Mae'r cysylltiad yn wael rhwng prif faes parcio'r dref â'r stryd fawr ei hun heb fawr o arwydd o'r maes parcio o ble mae'r stryd fawr.

Mae gan y Stryd Fawr gerbytffordd unffordd sy'n rhedeg o'r gorllewin i'r dwyrain. Mae lleoedd parcio ar hyd y stryd yn rhoi cyfle i bobl alw heibio i siopau i gasglu hanfodion dyddiol ac mae'n gyfleuster defnyddiol i bobl ag anableddau. Hyd yn oed gyda'r gerbytffordd mae'n dal i fod digon o le i gerddwyr a thirlunio. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer cyfres o fannau cyhoeddus o ansawdd gyda chyfleoedd ar gyfer mwy o feinciau, caffis/bwytai a lle i ddigwyddiadau er mwyn annog pobl i aros yn hirach a hyrwyddo canol tref bywiog a ddefnyddir yn dda.

Ar y naill ben y Stryd Fawr, mae lleoedd y gellid eu trawsnewid yn byrth deniadol a phrysur i ganol y dref.

Ym mhen gorllewinol y Stryd Fawr, mae adeiladau hanesyddol deniadol yn cysylltu â Stryd y Ffynnon. Mae gan hyn y potensial i fod yn brif gyswllt rhwng canol y dref a Dyffryn Maes Glas.



Mae'r Gwesty Victoria yn dirnod allweddol ar ddiwedd y Stryd Fawr


Ym mhen dwyreiniol y dref mae Gwesty'r Victoria yn terfynu'r Stryd Fawr ac mae'n dirnod allweddol i'r dref. Mae'r orsaf fysiau hefyd wedi'i lleoli yma ac felly bydd yn fan cyrraedd allweddol i ganol y dref i lawer o drigolion ac ymwelwyr. Mae cyfle i greu amgylchedd o ansawdd uchel o amgylch y gwesty a helpu i'w adfer i'w hen ogoniant.




Mae Panton Place yn llwybr deniadol rhwng y dref a'r ganolfan hamdden

Oddi ar y Stryd Fawr, mae Panton Place yn creu cyswllt deniadol i gerddwyr i'r ganolfan hamdden (er y gall y gatiau trwy'r ardd goffa fod wedi eu cadwyno ar adegau). Dylai'r cyswllt hwn gael ei ddiogelu a'i wella lle bynnag y bo modd. Ar ddiwedd y cyswllt hwn mae clwstwr o adeiladau cymunedol/allweddol. Ar hyn o bryd mae'r rhain yn sefyll mewn amgylchedd gwael o fewn cyfres o feysydd parcio. Fodd bynnag, gallai'r clwstwr hwn ddod yn ganolbwynt cymunedol newydd i'r dref gyda mynediad da i ganol y dref a'r ganolfan hamdden.

Saif Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas i'r gogledd o ganol y dref ond mae cysylltiadau gwael rhwng y ddau le i gerddwyr. Mae Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas yn dod i ben yn siop Tesco, ond mae ei faes parcio a'r ffordd danffordd dan yr A5026 yn ei wahanu o ganol y dref. Mae cyfle i gryfhau'r cyswllt hwn drwy wella parth cyhoeddus y maes parcio a chreu cyswllt diogel a deniadol heibio swyddfeydd Cyngor Tref Treffynnon ac i mewn i'r dref.



# MANNAU CYRRAEDD – PRIF FAES PARCIO







Ffordd gymhleth i'r maes parcio o'r A5026 heb olwg uniongyrchol a fawr o arwyddion i ddangos lle i fynd




Rhai adeiladau hanesyddol ac o ansawdd uchel ar y ffordd, er bod rhai'n ymddangos eu bod yn wag




Man cyfyng cul drwodd i'r maes parcio gyda llwybrau sy'n addas i gerddwyr




Cefnau anneniadol i adeiladau, fodd bynnag mae eiddo preswyl gyferbyn yn cynnig gwyliadwriaeth naturiol

5



Mae cyswllt i gerddwyr yn agor y lle allan ac yn osgoi i bobl orfod cerdded y ffordd hir o amgylch Home Bargains

6




Man cyrraedd gwael i'r maes parcio ac mae'n aneglur lle mae'r Stryd Fawr

7



Cefnau adeiladau, biniau a blerwch yn creu ymyl anneniadol i'r maes parcio

8



Y ffynnon yw'r unig arwydd o ffordd drwodd i'r Stryd Fawr ond mae wedi'i lleoli'n uniongyrchol dros y llwybr gan greu rhwystr

9



Llwybr cul drwodd i'r Stryd Fawr trwy Hen Neuadd y Dref nad yw wedi ei arwyddo'n dda o'r maes parcio

10




Digonedd o le yn y maes parcio i ddiwallu anghenion y dref

11



Allanfa'r maes parcio yn arwain heibio i'r ganolfan hamdden ac mae ganddi ffordd fwy uniongyrchol allan i'r A5026

# MANNAU CYRRAEDD – GORSAF FYSIAU







Dim nodwedd gwirioneddol 'Croeso i Dreffynnon' i nodi eich bod wedi cyrraedd y dref




Mae'r ciosg twll yn y wal yn wasanaeth da ac yn ffynhonnell gweithgarwch i'r orsaf ond mae wedi'i leoli ar hyn o bryd mewn amgylchedd trefol gwael




Mae'r orsaf fysiau wedi cael ei hamgylchynu gan ffyrdd a thraffig gan ei gadael fel pe bai wedi ei thorri oddi wrth y dref




Yr orsaf fysiau yn tueddu i fod wedi ei llethu â rheiliau, pyst ac arwyddion

5



Mae'r cysgodfannau bws yn ymarferol ond mae tirlunio a seddau a gwael yn yr ardal nad yw'n dweud fawr ddim am gymeriad na dyheadau Treffynnon

6




Fawr ddim i ddangos lle mae'r Stryd Fawr mewn perthynas â'r orsaf bysiau

7




Croesfannau a rhwystrau yn arwain cerddwyr i mewn ac allan o'r orsaf

8



Cerbydau'n mynd allan o'r Stryd Fawr i'r A5026 brysur sy'n creu rhwystr o dan oruchafiaeth ceir rhwng yr orsaf a'r Stryd Fawr

9



Gall darpariaeth i feicwyr drwodd i'r Stryd Fawr achosi gwrthdaro gyda cherbydau a'r system un-ffordd

10




Parth cyhoeddus gwael ar ddiwedd y Stryd Fawr gyda meinciau'n wynebu'r ffordd anghywir a thirlunio gwan

11




Mae Gwesty'r Victoria yn adeilad allweddol nodedig i'r dref ond mae bellach yn edrych fel pe bai wedi gweld dyddiau gwell ac mae wedi ei ynysu o fewn cylchfan traffig

# MANNAU CYRRAEDD – MAES PARCIO TESCO




1



Mae'r A5026 yn ffordd lydan dan oruchafiaeth ceir sy'n ddefnyddiol i symudiad traffig ond sy'n cynnig amgylchedd o ansawdd gwael i gerddwyr ac mae'n anodd ei chroesi

2



Golygfeydd deniadol trwy'r maes parcio at fythynod hanesyddol (Cyngor Tref Treffynnon) ac ymyl Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas

3



Arwyddion gwael heb fawr ddim i ddangos bod Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas y tu ôl i'r maes parcio

4




Cyswllt da i gerddwyr drwy'r maes parcio heibio i fythynnod hanesyddol deniadol

5



Mae golygfeydd o ganol y dref a'r strwythur ar ddiwedd y danffordd yn dangos yn glir lle mae canol y dref i sut i fynd yno

6



Arwyddion clir ar y danffordd a gweithiau celf graffiti yn dangos y ffordd drwodd

7



Y llwybr i fyny'r grisiau i ganol y dref wedi ei dirlunio'n ddeniadol ond gall fod yn anodd i rai neu deimlo'n beryglus gan nad oes fawr o wyliadwriaeth naturiol

8



Y parth cerddwyr yn creu amgylchedd trefol da a chyfle am weithgarwch a lle bywiog ar gyfer manwerthu / hamdden

9



Tuag at Tesco mae llwybr â grisiau yn rhedeg i fyny i'r A5026 ond nid yw'n cynnig fawr ddim i ddangos bod llwybr drwodd i'r dref Tuag at Tesco mae llwybr â grisiau yn rhedeg i fyny i'r A5026 ond nid yw'n cynnig fawr ddim i ddangos bod llwybr drwodd i'r dref

10




Mae croesfan a rheiliau yn arwain at bobl yn croesi'r ffordd yn y pwynt mwyaf uniongyrchol sydd â'r potensial o fod yn beryglus

11



Mae cipolygon o'r Stryd Fawr i'w gweld o'r A5026 ond nid yw'r meysydd parcio a chefnau adeiladau yn creu amgylchedd croesawgar

# Y STRYD FAWR



1. Porth gorllewinol gwael gydag ochrau a chefnau adeiladau heb ddim i 'groesawu' pobl i ganol y dref. Mae'r ardal yn brin o dirlunio a nodwedd porth.



2. Mae adeiladau deniadol yn helpu i ddiffinio pen uchaf y dref ac yn gyfle i greu llecyn cyhoeddus sy'n cysylltu'n glir â Pharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas i'r gogledd o ganol y dref




3. Y stryd lydan yn caniatáu ar gyfer digon o ddarpariaeth parcio a lle ar gyfer parth cyhoeddus. Gellir cau'r fan hon i ffwrdd i ganiatáu marchnadoedd a digwyddiadau



4. Cyswllt gwael i gerddwyr drwodd i Tesco, heb oruchwyliaeth ac o dan oruchafiaeth cerbydau



5. Mae Hen Neuadd y Dref yn adeilad nodedig o fewn y stryd. Mae llwybr i'r maes parcio yn rhedeg o dan ei adain felly mae'n bwynt mynediad allweddol i'r Stryd Fawr






Mae'r parth cerddwyr yn lle defnyddiol i'r dref ar gyfer digwyddiadau a marchnadoedd, gyda digon o le i ymestyn allan i siopau ac ymbarelau mawr i helpu creu cysgod rhag yr elfennau



Mae adeiladau o ansawdd uchel gyda blaenau siopau deniadol i'w cael ar hyd y Stryd Fawr gydag ychydig yn unig o enghreifftiau o stoc adeiladu mewnlenwi (sydd o ansawdd salach)






Mae'r stryd yn culhau i greu parth cyhoeddus mwy cyfyngedig sy'n arwain at gael gwared ar leoedd parcio ar y stryd. Mae bolardau a blychau planhigion fodd bynnag yn creu rhwystrau o fewn y stryd



Mae Panton Place yn gyswllt deniadol a braf drwodd i'r maes parcio a'r ganolfan hamdden



Mae'r stryd yn agor eto at ddiwedd y Stryd Fawr gyda pharth cyhoeddus sylweddol ei faint o flaen Gwesty'r Victoria. Fodd bynnag mae'r ardal o ansawdd gwael ar hyn o bryd ac nid yw'n creu porth addas i'r dref

# DADANSODDIAD SWOT LLE

## CRYFDERAU

- Lleoliad da rhwng yr arfordir a'r bryniau
- Caiff ei hadnabod weithiau fel Lourdes Cymru – oherwydd Ffynnon Santes Gwenffrewi, Treffynnon
- Mae asedau yn Nyffryn Maes Glas yn adnoddau allweddol i'r gymuned ac i ddenu ymwelwyr
- Cysylltedd da i'r A55 ac oddi arni
- Canol tref gydag adeiladau'n llawn cymeriad a hanes
- Siopwyr a defnyddwyr canol y dref lleol a ffyddlon
- Mae 67% o bobl leol yn ymweld â chanol y dref ar gyfer siopa groser
- Rhai arwyddion o weithgarwch yn dod at ei gilydd yng Ngerddi'r Tŵr
- Mae'r meysydd parcio yn agos at ganol y dref ac yn gyffredinol hygyrch
- Gorsaf fysiau sy'n ganolog i ganol y dref
- Mae rhai busnesau annibynnol yn dal eu tir oherwydd safon eu cynhyrchion a'u gwasanaeth
- Nifer o asedau a chyfleusterau cymunedol naill ai o fewn neu'n agos at ganol y dref e.e. canolfan hamdden
- Cymuned fywiog gydag arwyddion o fuddsoddiad blaenorol ac awydd i wneud gwahaniaeth

## GWENDIDAU

- Natur fryniog yn cael ei weld fel rhwystr ond mae'n rhan o gymeriad y dref
- A5026 yn ffurfio ffordd osgoi fewnol ac yn torri oddi wrth y Stryd Fawr
- Cefnau adeiladau wrth ichi gyrraedd yn y prif faes parcio
- Cyfradd eiddo gwag uchel o 26% i safleoedd canol y dref
- Adeiladau mawr a gwag mewn lleoliadau allweddol
- Ansawdd ac amrywiaeth cynnig canol y dref yn gyfyngedig
- Dim ond 34% sy'n teimlo'n gadarnhaol ynghylch cynnig canol y dref
- Angen gwella'r farchnad stryd
- Defnyddwyr yn tueddu i wibio i mewn ac allan o ganol y dref (72%), heb ddim ond 20% yn treulio ychydig oriau

## CYFLEOEDD

- Potensial Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas o ran denu ymwelwyr a buddion i ganol y dref
- Dim traffig trwodd o fewn y Stryd Fawr - sydd â photensial mawr i leoedd seiliedig ar bobl
- Adeiladu ar lefelau meddiannaeth ac amrywiaeth Gerddi'r Tŵr
- Rôl y farchnad stryd fel sbardun i fentergarwch lleol a denu ymwelwyr
- Newid y ffordd o reoli cyrhaeddiad ymwelwyr â cheir i ganol y dref
- Ardal gyrchfan ddinesig, hamdden a chwarae gerllaw Parc Fron
- Cynlluniau buddsoddi llesiant Eglwys Sant Iago sy'n cynnwys sinema gymunedol, caffi a chyfleuster nyrsio
- Ardal Gwesty'r Victoria – gorsaf fysiau, llecyn dinesig, llecyn a rennir
- Pobl leol yn awyddus i weld mwy o gyfleoedd siopa yn dilyn gwelliannau i adeiladau

## BYGYTHIADAU

- Patrymau teithio i'r gwaith a chysylltedd â'r A55 – colli i Gaer
- Twf mewn cyfraddau eiddo gwag ac effaith ar lefelau hyder
- Dirywiad pellach yng ngwead adeiledig canol y dref
- Landlordiaid absennol sydd ymhell o wireddu cyfleoedd lleol
- Argyfwng costau byw presennol a llai o wariant yng nghanol y dref

# DADANSODDIAD SWOT POBL

## CRYFDERAU

- Cymuned leol a theyrngar
- 9,200 o boblogaeth leol
- Gweithgarwch cymunedol ar draws llawer o sefydliadau
- Cyflogwyr mawr yn y Maes Glas ee Kingspan
- 55.4% o boblogaeth y dref yn economaidd weithgar
- Teimlad o berthyn o fewn cymdogaethau
- Cefnogaeth frws i ardaloedd Holway a'r Strand

## GWENDIDAU

- Gostyngiad yn y boblogaeth oed gweithio 20-34 oed
- Mae trigolion yn llai rhugl yn y Gymraeg na phoblogaeth Cymru'n gyffredinol
- Mae perchnogaeth cartref yn is na chyfartaledd Cymru gyda 25% o breswylwyr yn rhentu'n gymdeithasol o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 16.5%
- 13.3% o'r boblogaeth mewn galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 11.2%
- Mae 44% o breswylwyr yn ystyried eu hiechyd yn dda iawn o'i gymharu â'r cyfartaledd Cymru gyfan o 46.2%
- Mae 22% o'r preswylwyr heb gar o'i gymharu â 19.4% o boblogaeth Cymru
- Gweithgarwch ymddygiad gwrthgymdeithasol uchel yn ardal canol y dref
- Cyfleoedd cyflogaeth lleol cyfyngedig heblaw'r sector cyhoeddus neu'r sector gwasanaethau
- Mae 41.5% o'r boblogaeth oed gweithio yn teithio mwy na 10km i'r gwaith, o'i gymharu â 24.1% o boblogaeth oedran gweithio Cymru
- Mae 23.4% o boblogaeth y dref heb ddim cymwysterau o'i gymharu â 19.9% ar gyfartaledd Cymru
- Cyfran is o breswylwyr â chymwysterau Lefel 5 ac uwch (23.4%) o'i gymharu â Chymru gyfan ar 31.5%


## CYFLEOEDD

- Ansawdd bywyd a diogelwch yw'r flaenoriaeth uchaf i drigolion
- Lleoliad Ffynnon Santes Gwenffrewi – thema llesiant
- Mwy o rwydweithio a chydweithio rhwng asiantaethau strategol a lleol
- Gallai safleoedd canol y dref fod yn gartref i brosiectau llesiant
- Canolfan ar gyfer cerdded a chrwydro'r bryniau cyfagos a Pharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas

## BYGYTHIADAU

- Incymau isel ac argyfwng costau byw
- Cyllidebau'r sector cyhoeddus a chyllid ar gyfer asedau a gwasanaethau cymunedol
- Amddifadedd o genhedlaeth i genhedlaeth sy'n tarfu a chreu newidiadau hirdymor
- Symudedd a'r cyfleoedd i grwydro yn gwaethygu
- Lefelau iechyd cyhoeddus a gweithgarwch yn gwaethygu
- Newid hinsawdd a gwytnwch cymunedol
- Newid mewn patrymau a dewisiadau siopa
- Canolfannau cystadleuol yn parhau i ddatblygu a thyfu ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr

# 05: ADEILADU AR EI SYLFAEN



# EMERGING FOCUS/BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

## ANGEN/TYSTIOLAETH

Mae system ffyrdd y dref yn eich tynnu at ymylon dwyreiniol a gogleddol canol y dref, heb ddod â chi yn uniongyrchol i'w chalon. Mae ymwelwyr am y tro cyntaf yn teithio ar hyd nifer o lwybrau cymhleth sydd naill ai'n dod â chi i faes parcio siop fwyd Tesco neu i iardiau gwasanaeth yn y cefnau. Mae angen i ymwelwyr brofi cyfres fwy uniongyrchol a deniadol o strydoedd sy'n mynd â chi drwy fwy o leoliad cyhoeddus a gwyrdd at y prif faes parcio cyhoeddus yn Ffordd y Gogledd. Hefyd, mae'r maes parcio hwn yn brin o strwythur a theimlad o gyrraedd i'r Stryd Fawr ac oddi yno, yn ogystal â nifer o adeiladau sydd naill ai'n sefyll o fewn neu ar ymyl y safle ehangach.

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Pyrth a Theimlad o Gyrraedd

Creu hierarchaeth o byrth sy'n cyfrannu at strategaeth symud ddarllenadwy ar gyfer: cerbydau, cerddwyr a beiciau. Mae'r angen i gyfeirio ymwelwyr o'r A55 i'r A5026 (ffordd uchaf) i lawr i Ffordd y Gogledd, gan fynd heibio Parc Fron, canolfan hamdden y dref ac amwynderau dinesig eraill yn rhoi argraff gyntaf ddeniadol i bobl ac yn cyflwyno rhai o'r atyniadau allweddol. Mae angen gwneud mwy i dynnu sylw at cysylltiad i gerddwyr rhwng y maes parcio a'r Stryd Fawr. Mae'r maes parcio yn llwm ac mae angen coed a phlanhigion sy'n ymwneud â'r parc cyfagos yn ogystal â'r gerddi dinesig oddi ar Panton Place. Mae cyfleoedd hefyd i greu cysylltiadau cryfach rhwng Stryd Pen-y-Ball a Lôn y Parc.








## ANGEN/TYSTIOLAETH

Mae canol y dref wedi'i angori o amgylch ei Stryd Fawr, nad yw'n llwybr trwodd i draffig, ac sydd â man agored eang gyda phensaernïaeth gref sy'n fframio'r ymylon. Fodd bynnag, mae gan y dref gyfradd eiddo gwag o 26%, mae'n brin o amrywiaeth o ddibenion ac nid oes ganddi deimlad cymdeithasol. Mae rhai adeiladau allweddol arwyddocaol naill ai'n wag neu ddim yn cyrraedd eu potensial oherwydd lefelau isel o hyder. Mae'r farchnad stryd wythnosol yn fach o ran niferoedd ac mae'n brin o amrywiaeth ac ansawdd a chyfyng yw'r dewis o gynhyrchwyr, gwneuthurwyr a mentrau eraill lleol.

Er bod gan ganol y dref nifer sylweddol o adeiladau rhestredig, sy'n adrodd hanes blaenorol y dref, maent wedi newid defnydd ac wedi cael eu haddasu'n raddol dros amser, heb gyfrannu at strydlun cydlynol. Mae eiddo gwag sylweddol hefyd yn cyfrannu at ddiffyg bywiogrwydd drwy'r Stryd Fawr ardal yn ogystal â rhai strydoedd ochr sy'n bwydo i mewn oddi ar yr A5026.

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Bywiogi'r Stryd Fawr

Mae'n amlwg fod potensial i'r Stryd Fawr a'i strydoedd cyfagos fod yn ddeniadol a phrysur gyda phobl a gweithgareddau. Mae Gerddi'r Tŵr eisoes yn symud tuag at gyfres gydlynus o siopau a gwasanaethau. Mae'r angen i sicrhau cynnig bwyta allan yn allweddol i greu naws cymdogaeth yng nghanol y dref, yn ogystal â gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar lesiant ac i draws-farchnata lleoliad Ffynnon Santes Gwenffrewi. Mae angen archwilio gwelliannau a chyfleoedd gwyrddu'r parth cyhoeddus yn Whitford Place a chyda'r gyffordd gyferbyn â Gwesty'r Fictoria. Nod y cyfan o'r uchod yw cynyddu gweithgarwch, amser a dreulir a phrofiad.

### Adfer ysblander adeiledig Treffynnon

Un nod allweddol fyddai datblygu a chyflwyno cod dylunio ar gyfer canol y dref. Byddai hyn yn helpu i adrodd stori Treffynnon, hyrwyddo arddull gydlynol ar gyfer ffasadau a blaen siopau, sy'n helpu busnesau i ddod yn rhan o brofiad cyfunol. Dylai'r gwaith hefyd archwilio sut i adfer defnydd i loriau uchaf, lleoedd y tu ôl i adeiladau ac agor cysylltiadau i'r Stryd Fawr.








## ANGEN/TYSTIOLAETH

Mae ystadegau'n dangos bod rhai o drigolion Treffynnon yn byw mewn cymdogaethau sydd â'r angen mwyaf. Sgôr iechyd, cyrhaeddiad addysgol, amlygiad i drosedd, gweithgarwch economaidd yw rhai o'r dangosyddion sy'n mesur ymhell islaw cyfartaledd Cymru. Mae symudedd isel yn arwain at drigolion yn ddibynnol ar ganol tref Treffynnon gydag angen i wasanaethau lleol fod yn hygyrch i bawb. Mae sefydliadau cymunedol yn weithgar ac yn estyn allan at breswylwyr, ac eto mae angen mwy o weithio amlasiantaethol o fewn cymunedau ac mewn lleoliadau a llecynnau'r Stryd Fawr. Lle nad oes gan deuluoedd gar neu lle mae lefelau isel o berchnogaeth ceir mae angen cael gwared ar rwystrau i deithio lleol, er bod topograffi'r dref yn gwneud hyn yn her.

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Edrych tua'i chymdogaethau

Mae rôl canol tref Treffynnon yn bwysig gan fod y dref yn bell o ganolfannau trefol eraill, gyda'r trigolion llai symudol hynny yn edrych i mewn i'r Stryd Fawr am gyngor, gwasanaethau lleol, cyfleoedd gwaith a phrofiadau a all wella eu cyfleoedd mewn bywyd. Mae gan y Stryd Fawr y potensial i ategu gwasanaethau cymunedol presennol, gyda rôl y sector cymunedol/gwirfoddol a chyhoeddus i wireddu gwasanaethau sylfaenol a galluogi prosiectau sy'n seiliedig ar bartneriaeth.

Dylai teithio llesol drwy well darpariaeth cerdded a beicio integreiddio â thrafnidiaeth gyhoeddus i helpu i gefnogi teithiau canolig neu hirach yn ogystal â rhai teithiau lleol lle mae gan breswylwyr anghenion corfforol penodol.







## ANGEN/TYSTIOLAETH

Mae Strategaeth Dyffryn Maes Glas - Cynllun 10 mlynedd 'Darlun Mawr' ar gyfer Dyffryn Maes Glas yn ei nodi fel lle a ddylai fod yn un o'r deg uchaf o blith cyrchfannau yng ngogledd Cymru gyda chymysgedd atyniadol o brofiadau diwylliannol, amgylcheddol, treftadaeth a hamdden. Mae'r Cynllun yn tynnu sylw at welliannau posibl yn y dyfodol i hen orsaf Santes Gwenffewi a Pharth Pyrth Treffynnon, sy'n agos at ganol y dref. Er bod y Dyffryn yn agos at ganol y dref, wrth gyrraedd o'r gorllewin, mae angen neges gryfach ynghylch ei brofiad, ei hanes, ei natur leol a'i hygyrchedd, gan adeiladu ar ei lwybr treftadaeth tref presennol. Nid yw'r Stryd Fawr ychwaith yn manteisio i'r eithaf ar lesiant y dyffryn o ran cynnyrch lleol, cyfleoedd bwyd a diod, ei marchnadoedd awyr agored, rhaglen ddigwyddiadau a llety di-wasanaeth. Mae angen i drafnidiaeth gyhoeddus hefyd integreiddio â phrofiad yr ymwelydd fel bod gan bobl y cyfleuster i alw ar fysiau lleol a dychwelyd i'w man cychwyn.

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Cysylltu Dyffryn y Maes Glas

Byddai'r amcanion allweddol yn cynnwys:

- Manteisio i'r eithaf ar leoliad canol tref Treffynnon wrth ymyl Dyffryn Maes Glas sy'n cyhoeddi, yn cefnogi ac yn cyfeirio at y gyrchfan drwy gydol y flwyddyn.
- Gweithio gydag Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas a'u huwchgynllun 10 mlynedd sy'n canolbwyntio'n benodol ar Barth Pyrth Treffynnon a sut mae hyn yn cysylltu ag ardal maes parcio Tesco, coridor yr A5026, y danffordd a chysylltiadau â Gerddi'r Tŵr, Whitford Place a'r Stryd Fawr.
- Cynnwys plannu coed, trin yr A5026, parhad celf gymunedol ac wrth gyrraedd y Stryd Fawr naratif a hunaniaeth fwy mentrus ynghylch llesiant, natur a hanes y dref a'r Dyffryn. Mae angen adlewyrchu hyn mewn cynhyrchion lleol, mentrau a marchnadoedd newydd.







## ANGEN/TYSTIOLAETH

Dangosodd yr Archwiliad Seilwaith Gwyrdd nifer o heriau yng nghanol y dref. Yr heriau hyn yw ychydig iawn o orchudd coed, a chysylltiadau cyfyngedig/ o ansawdd wael i fannau gwyrdd gan gynnwys Llwybr Clawdd Dyffryn Maes Glas a Pharc Fron ar hyd ymyl ddeheuol canol y dref.

Fel y soniwyd yn flaenorol, mae goruchafiaeth cerbydau ar hyd Rue St Gregoire/A5026, yn hollti canol y dref, gyda darpariaeth wael ar gyfer cerdded a beicio. Wrth symud i ganol y dref, gwelir bod y parth cyhoeddus yn flêr ac yn anghyson gyda theimlad gwael o le a'r mannau cyrraedd yn anodd eu hadnabod.

Mae'r diffyg mannau gwyrdd yng nghanol y dref yn her gan fod cyflwyno coed i ardaloedd o dirwedd caled yn fwy cymhleth a chostus o'i gymharu ag ardaloedd o dirlunio meddal.

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Gofod Gwyrdd a Bywyd Cymunedol

Dylai archwilio cyfleoedd ar gyfer plannu coed yn Nhreffynnon fod yn flaenoriaeth allweddol. Dylid defnyddio ymylon glaswellt presennol lle bo hynny'n bosibl. Mae'r rhwydwaith mannau gwyrdd ehangach yn rhoi cyfle i greu cysylltiadau â chanol y dref, ar gyfer cysylltedd ecolegol a mynediad i fannau gwyrdd.

Gallai adeiladau rhestredig a nodweddion rhestredig lleol wella eu lleoliad trwy fuddoddi priodol a sensitif. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, ffasâd hen Neuadd y Dref, Exchange House a hen Fanc y Midland.





# GWELEDIGAETH, NODAU AC AMCANION STRATEGOL

## Gweledigaeth

Treffynnon – lle mae Dyffryn y Maes Glas yn cyfarfod Ffynnon Santes Gwenffrewi, gyda chanol y dref yn ganolfan siopau lleol, cyfarfod, marchnadoedd wythnosol a bywyd cymunedol, sy'n ymestyn allan i'w gymdogaethau cyfagos.





## Nodau Allweddol

Rhoi Treffynnon ar y map fel cyrchfan iechyd a llesiant gyda Dyffryn Maes Glas, Ffynnon Santes Gwenffrewi, Mynydd Helygain a'i ganol tref sy'n wynebu'r gymuned.

Cyfeirio pobl i graidd canol y dref gan brofi ei gynnig parciau a hamdden cyn cyrraedd y Stryd Fawr.

Cynyddu gweithgarwch a bywyd ar y Stryd Fawr trwy weithgareddau llesol, mannau cymunedol, marchnadoedd lleol, digwyddiadau rheolaidd a gwyliau gyda strydluniau o ansawdd uchel yn gefndir.

Gwella llesiant y gymuned ehangach gyda mynediad at amrywiaeth o wasanaethau lleol sy'n cefnogi iechyd, llesiant, cyflogaeth, symudedd a gwell cyfleoedd bywyd.





## Amcanion

Newid y ffordd mae pobl yn cyrraedd yng nghanol y dref fel eu bod yn manteisio ar amwynderau dinesig, hamdden a gwyrdd cyn cyrraedd gwell lle i barcio a pharth cyhoeddus.

Gwella stori treftadaeth canol y dref trwy dargedu gwelliannau i'r strydlun sy'n cysylltu â'r parth cyhoeddus a mwy o wyrddni.

Sefydlu profiad Dyffryn y Maes Glas o fewn y Stryd Fawr – llesiant, llwybrau, bwyd a diod, llety, marchnadoedd, digwyddiadau.

Cefnogi busnesau presennol a newydd canol y dref gyda'u llwybr busnes, eu integreiddio â brand, neges a chyfathrebu unigryw i Dreffynnon.




Datblygu clwstwr cysylltiedig o asedau cymunedol rhwydweithiol sy'n lleoedd i gefnogi iechyd, llesiant, mentergarwch, diwylliant.

Datblygu dyffryn o hunaniaeth llesiant sy'n cysylltu'r arfordir â chanol tref Treffynnon.

# CYFLEOEDD LLE A PHOBL

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth, nodau ac amcanion, canfuwyd y cyfleoedd canlynol.

## Cyfleoedd Lle



**Pyrth i'r Dref**



**Bywiogi a Gwyrddu Canol y Dref**



**Cysylltiadau i'r Stryd Fawr**



**Bywiogi'r Stryd Fawr**



**Dyffryn Maes Glas yng Nghanol y Dref**

## Cyfleoedd Pobl



**Llesiant yn y Gymuned**



**Cysylltu Asedau'r Gymuned**





**Meithrin Mentergarwch**



**Gweithio mewn Partneriaeth**

## CYFLEOEDD LLE – PYRTH I'R DREF




Bydd hierarchaeth o byrth o fewn y dref yn rhoi argraff ffafriol o'r dref i drigolion ac ymwelwyr ac yn helpu symudiad a dangos y ffordd.

### Cryfhau'r A5026/Ffordd Parc Fron

Mae hon yn ffordd lydan a deniadol drwy'r dref gydag ymylon gwyrdd a lleoedd wedi eu tirlunio. Fodd bynnag, mae'r gerbytffordd yn tueddu i fod yn llydan ac mae llwybr cul ar hyd yr ochr ddeheuol yn arwain at amgylchedd dan oruchafiaeth ceir. Mae cyfle i gwella cymeriad 'gwyrdd' y stryd a'i gwneud yn wythīen wirioneddol werdd trwy'r dref a chreu gwell amgylchedd a'i gwneud yn fwy defnyddiol i gerddwyr a beicwyr.





chris jones
rl.
creu lleoedd SIR Y FFLINT



### Porth Ffordd Parc Fron i'r Maes Parcio

Dengys y dadansoddiad fod gyrru i brif faes parcio'r dref o'r A5026 yn ffordd hir a chymhleth. Ffordd fwy uniongyrchol i'r maes parcio yw trwy Ffordd Gwenffrwd a heibio i'r Ganolfan Hamdden a Pharc Fron. Gellir creu nodwedd porth ar gyffordd Ffordd Gwenffrwd yn cyfarwyddo pobl at ffordd haws a deniadol i ganol y dref heibio i fannau gwyrdd deniadol (Parc Fron) a chyfleusterau allweddol yn y dref (y Ganolfan Hamdden). Gellir gwrthdroi'r system unffordd fel y gellid symud y fynedfa i lawr Ffordd Gwenffrwd i'r maes parcio ac yn ôl i'r A5026 trwy Goedlan Dewi gerllaw.

### Pyrth Ffordd Parc Fron

Mae'r pyrth dwyreiniol (cyffordd B5432) a gorllewinol (Gorsaf Dân) presennol ar yr A5026 i ganol y dref heb nodweddion nac arwyddion digonol sy'n amlygu bod y rhain yn ffyrdd allweddol i'r dref. Mae gan y ddau borth fannau gwyrdd agored y gellir eu gwella trwy dirlunio, celf cyhoeddus ac arwyddion.

### Porth Gwesty Victoria

Mae Gwesty'r Victoria / yr Orsaf Fysiau wedi eu lleoli o fewn cylch ffordd sy'n ffurfio'r porth i ben isaf y Stryd Fawr. Mae Gwesty'r Victoria yn adeilad allweddol yn yr ardal ond mae ei olwg, sydd fel pe bai wedi gweld dyddiau gwell, yn creu argraff wael. Mae cyfle i adfywio'r rhan hon o'r dref, trwy barth cyhoeddus mwy unedig sy'n cysylltu'n well â'r Stryd Fawr a chynnig argraff gyntaf gref o ganol y dref.



### Porth Stryd Chwitffordd

Ar borth gorllewinol Stryd Chwitffordd i ganol y dref, mae ochrau a chefnau adeiladau yn creu teimlad anghroesawgar ac anffafriol i ganol y dref. Mae digon o fannau cyhoeddus ar hyn o bryd wedi cael eu cymryd gan balmant i greu porth unigryw llawn cymeriad i ganol y dref gydag arwyddion, celf cyhoeddus a thirlunio.




### Prif Faes Parcio

Mae'r prif faes parcio yn llecyn eang sy'n flêr ei olwg ac mae'n cynnig argraff gyntaf wael o'r dref. Nid yw'r llwybr cul i gerddwyr i'r Stryd Fawr wedi ei amlygu'n dda iawn a chaiff ei 'rwystro' gan y nodwedd olwyn ddŵr. Mae cyfle i ddefnyddio palmentydd a thirlunio i wella amgylchedd y maes parcio a chreu cysylltiadau cryfach â'r Stryd Fawr a'r Ganolfan Hamdden. Gellid amlygu'r llwybr i'r Stryd Fawr fel cyswllt clir ac uniongyrchol rhwng y ddau le.

# CYFLEOEDD LLE – BYWIOGI A GWYRDDU CANOL Y DREF

Unwaith mae pobl wedi cyrraedd canol y dref, ystyriaeth allweddol yw sut i'w hannog nhw i aros. Mae'r dref ar hyn o bryd yn dioddef o rai mannau cyhoeddus gwael a all fod o dan oruchafiaeth ceir, ac nid ydynt yn cynnig fawr ddim o ran seddau a gwyrddni, a fyddai'n gwahodd pobl i dreulio amser. Mae cyfle gwych drwy holl ardal canol y dref i greu mwy o leoedd i ddenu pobl sy'n annog a chynyddu'r amser (ac arian) a dreulir yng nghanol y dref.




### Prif Faes Parcio

Mae prif faes parcio'r dref yn cynnig amgylchedd gwael, eangderau mawr o tarmac ac ychydig iawn o wyrddni. Mae hyn yn creu argraff gyntaf a phorth gwael i'r dref. Mae cyfle i wella'r teimlad o gyrraedd trwy arwyddion croesawgar, deunyddiau o ansawdd uchel, a ffordd glir drwodd i'r Stryd Fawr.  Gellir torri ar yr arwynebeddau mawr o tarmac gyda thirlunio a choed i greu lleoliad mwy dymunol yn ogystal â gwell atebion biniau/storio ar gyfer busnesau i osgoi blerwch gweledol. Gall llecyn newydd neu well o gwmpas yr olwyn ddŵr greu teimlad o gyrraedd yn y dref yn ogystal â chyfeirio pobl yn fwy uniongyrchol i'r Stryd Fawr. Gall y maes parcio hefyd helpu creu gwell cysylltiadau rhwng y Stryd Fawr a'r Ganolfan Hamdden.





## Y Stryd Fawr

Mae'r stryd hon yn elwa ar bensaernïaeth ddeniadol ac amgylchedd bywiog sy'n caniatáu ar gyfer cerddwyr, cerbydau a pharcio, gan greu gweithgarwch drwy gydol y dydd. Nid yw'r parth cyhoeddus fodd bynnag yn helpu cefnogi hyn gyda rhai palmentydd cul, gormod o bolardau ar draws ei gilydd yn y stryd a fawr ddim seddau na gwyrddni. Byddai cyflwyno rhywfaint o ddeunyddiau o ansawdd uchel, cyfleoedd i eistedd, coed stryd a gerddi glaw yn gwella'r parth cyhoeddus yn sylweddol. Bydd mwy o seddau yn annog pobl i eistedd ac aros yn y dref, bydd gwyrddni'n helpu i leihau sŵn a llygryddion aer a bydd gael gwared ar flerwch diangen yn creu mwy o le i gerddwyr.

## Gerddi'r Tŵr

Stryd i gerddwyr yn unig sy'n cysylltu'r Stryd Fawr, trwy tanffordd i Faes Parcio Tesco a Dyffryn Maes Glas a'r tu hwnt. Mae'r stryd yn dioddef hefyd o ormodedd o balmant caled ac nid oes ganddi fawr o gymeriad. Mae cyfle i wyrddu a gwella'r stryd hon a chreu gwell cyswllt a man cyrraedd i'r dref.



## Gwella Mannau Cyhoeddus

Ar ddau ben y Stryd Fawr mae cyfle i greu mannau cyhoeddus deniadol sy'n croesawu pobl i mewn a chysylltu'r Stryd Fawr yn well ag ardaloedd cyfagos.

Ar y pen gorllewinol mae Stryd y Ffynnon, sef y prif fan cyrraedd wrth yrru i'r Stryd Fawr. Gallai'r rhan o Stryd y Ffynnon sydd wedi ei neilltuo i gerddwyr yn unig ddod yn hafan o seddau a mannau gwyrdd, gydag arwyddion sy'n cyfeirio defnyddwyr tuag at Ddyffryn Maes Glas a Ffynnon y Santes Gwenffrewi.

Ar ben dwyreiniol y Stryd Fawr gellid gwella'r llecyn presennol â thirlunio a seddau i greu gwell lleoliad i Westy'r Victoria. Y llecyn hwn yw'r prif fan cyrraedd o'r orsaf fysiau felly mae angen iddo gysylltu'n well â hi.

## Yr A5026

Mae'r A5026 yn torri trwy ganol y dref o Tesco a Pharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas. Mae'n llydan, ac o dan oruchafiaeth ceir gan ei gwneud yn anodd ei chroesi ac nid yw'n cynnig fawr ddim i gerddwyr a beicwyr. Gellid ei thrawsnewid o ffordd i stryd trwy graidd y dref sy'n cyfrannu'n well at deithio llesol a chysylltu canol y dref ag ardaloedd o'i gwmpas. Mae cyfres o fannau gwyrdd bob ochr i'r ffordd a gellid gwella'r rhain trwy dirlunio lliwgar i greu gwythïen werdd drwy'r dref.

## Undod Blaen Siopau

Mae canol y dref yn elwa o nifer o adeiladau deniadol ac sydd o arwyddocâd pensaernïol. Fodd bynnag, mae blaenau siopau llawr gwaelod yn tueddu i fod yn flêr ac anghydnaws â'i gilydd, gan greu golwg o stryd brysur. Gallai cod dylunio newydd i'r Stryd Fawr helpu i uno golwg y stryd a chreu amgylchedd mwy cysylltiedig a chydnaws.


### Mentrau Gwyrdd

Mae gwyrddu strydoedd canol y dref sy’n creu ffurf a strwythur yn flaenoriaeth allweddol trwy ychwanegu at y parth cyhoeddus, lleoedd i eistedd a threulio amser, yn ogystal â rhoi cysgod rhag yr haul, amsugno gorlif dŵr glaw a chefnogi ffurfiau eraill o addasu a gwytnwch i newid hinsawdd. Gall strydoedd hefyd hyrwyddo tyfu lleol, blychau perlysiau a chardiau ryseitiau i hyrwyddo defnydd o lysiau tymhorol a chadwyni cyflenwi lleol. Mae’r gweithgareddau hyn hefyd yn cadarnhau hunaniaeth “llesiant” y dref.





Mae angen i fannau gwyrdd, parciau, caeau hamdden a chwarae, llwybrau, ymylon gwyrdd a ffurfiau eraill o wyrddni gael eu cysylltu â’i gilydd fel eu bod o fewn cyrraedd i drigolion lleol fanteisio arnynt. Mae cyfleoedd i gyflwyno mwy o goed, ardaloedd peillio a phlanhigion daear i ychwanegu at fioamrywiaeth lleol a chadwraeth natur. Dylid archwilio cyfleoedd am dyfu cymunedol lle caiff grwpiau eu ffurfio a gallant reoli tir a danddefyddir ar gyfer dibenion cynhyrchiol. Gall hyn ffurfio rhan o ragnodi cymdeithasol sy’n gysylltiedig â phrosiectau iechyd cymunedol.



## CYFLEOEDD LLE – CYSYLLTIADAU I'R STRYD FAWR




Mae nifer o gysylltiadau allweddol i mewn ac allan o ganol y dref, sy'n cysylltu â'r ardal ehangach ac maent yn allweddol er mwyn denu pobl i'r Stryd Fawr.

Bydd gwelliannau parth cyhoeddus i'r Stryd Fawr, A5026, maes parcio a phyrth allweddol yn helpu creu tref fwy bywiog a deniadol, ond yr unig ffordd y gall fod yn fuddiol fydd os gall pobl gael mynediad hawdd i'r ardal.

### Cyswllt Dyffryn Maes Glas

Mae Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas ynghyd â Chysegrfa Gatholig Genedlaethol y Santes Gwenffrewi yn gyrchfan allweddol i'r gogledd o ganol y dref. Mae'r parc yn creu lletem werdd drwy'r dref ac yn diweddu ym maes parcio Tesco. Fodd bynnag nid yw'n amlwg o'r maes parcio lle mae'r mynediad i Ddyffryn Maes Glas. Mae angen am nodwedd porth newydd i bwyntio at Ddyffryn Maes Glas o'r maes parcio er mwyn amlygu'r parc o ddifrif a gwerthu'r defnydd ohono. Gellir ymestyn y porth hwn gyda llwybr trwy'r maes parcio (heibio i fythynnod deniadol Cyngor Tref Treffynnon), trwy'r danffordd ac i mewn i ganol y dref trwy Erddi'r Tŵr. Byddai strategaeth gyfannol ac unig ar gyfer tirwedd, deunyddiau ac arwyddion yn denu pobl rhwng y dref a Dyffryn Maes Glas.

### Tanffordd Gerddi'r Twr

Mae cyfle i wneud y danffordd yn brofiad mwy dymunol, trwy dirlunio, goleuadau a gwaith celf.



### Croesi'r A5026

Ar hyn o bryd mae cyswllt gwael rhwng prif fynedfa Tesco a chanol y dref. Mae cyfres o risiau, rhwystrau ar hyd y A5026, lleoliad gwael croesfan cerddwyr a chyffordd i faes parcio y tu ôl i'r Stryd Fawr yn ei gwneud yn anodd symud rhwng y ddwy gyrchfan. Byddai llwybr cliriach a hygyrch i gerddwyr yn helpu hyn.



### Cyswllt Stryd y Ffynnon

Mae cyfle am well cysylltiadau at Ffynnon Santes Gwenffrewi o'r Stryd Fawr trwy Stryd y Ffynnon. Byddai hyn yn canolbwyntio ar lecyn porth newydd, gydag arwyddion clir a llwybr sy'n croesi'r A5026 i helpu cyfeirio pobl tuag at yr asedau treftadaeth allweddol hyn.

### Cysylltiadau â'r Prif Faes Parcio

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae angen i welliannau i'r prif faes parcio ystyried sut i greu cyswllt clir a deniadol rhwng y Stryd Fawr a'r maes parcio fel un o'r mannau cyrraedd allweddol yn y dref.

### Panton Place

Mae Panton Place eisoes yn gyswllt deniadol o'r Stryd Fawr i'r Ganolfan Hamdden. Fodd bynnag mae cyfle i gryfhau'r cyswllt hwn trwy'r gerddi ar hyd y ffordd i fynedfa'r Ganolfan Hamdden. Ar y pwynt hwn gellir creu gwell cysylltiadau i'r maes parcio ac i gysylltiadau llwybr troed eraill i'r Stryd Fawr.

### Gorsaf Fysiau Treffynnon

Mae gorsaf fysiau Treffynnon yn fan cyrraedd allweddol yn y dref i drigolion ac ymwelwyr. Fodd bynnag, mae'n cynnwys ehangderau o arwyneb caled yn bennaf gyda rhwystrau i gorlannu ymwelwyr, ychydig o gysgodfannau bws a seddau cyfyngedig. Dylai'r orsaf ddod yn borth allweddol i'r dref gyda gwelliannau i'r parth cyhoeddus, canolbwynt porth, mwy o dirlunio a llwybr clir i'r Stryd Fawr.





chris jones · rl. · creu lleoedd SIR Y FFLINT

# CYFLEOEDD LLE – BYWIOGI’R STRYD FAWR

Mae gan Stryd Fawr Treffynnon lawer o fanteision, ond nid yw’n cyflawni ei photensial. Nid yw’r Stryd yn ffordd drwodd ond mae’n rhoi mynediad hwylus ac uniongyrchol i bobl os ydynt yn galw heibio i’r Stryd Fawr am amser byr neu gasglu nwyddau. Mae’r stryd yn llydan ac mae ganddi’r cyfle i gyflwyno’i hun fel llecyn bywiog, ochr yn ochr â sgwariau a llecynnau llai megis Stryd y Ffynnon a Gerddi’r Tŵr. Dylid darparu mwy o gyfleoedd i dreulio amser trwy seddau, mannau cysgodi trwy blannu coed, a mannu cyhoeddus hygyrch.

Mae’n allweddol bwysig gweithio gyda chyfleoedd i wella ansawdd y treflun a manteisio i’r eithaf ar leoliad, hunaniaeth a phrofiad Dyffryn Maes Glas yng nghanol y dref. Mae angen i fywyd palmant fod yn fwy cymdeithasol, bywiog ac amrywiol, gyda thrwyddedau stryd yn darparu’r fframwaith ar gyfer arddangos nwyddau, gosod byrddau a chadeiriau a phlanhigion. Mae angen i’r rhain fod yn gysylltiedig â chod dylunio ar gyfer ffryntiadau masnachol.

Mae rôl marchnadoedd awyr agored o fewn Treffynnon yn faes allweddol i fuddsoddi ynddo, gan eu bod, os cânt eu rheoli’n ofalus, yn rhoi llwyfan i arddangos cynhyrchion lleol, cynhyrchu gweithgarwch stryd a chyflwyno busnesau sy’n cychwyn i leoliadau yng nghanol y dref. Mae angen i farchnadoedd ddiwallu anghenion beunyddiol yn ogystal ag apelio at ymwelwyr. Mae ansawdd, niferoedd, eu safloedd ffisegol a marchnata yn



ffactorau llwyddiant allweddol i farchnad ffyniannus. Mae angen hefyd i farchnadoedd fod yn gysylltiedig â Ffynnon Santes Gwenffrewi a’r manteision llesol o ymweld â Dyffryn Maes Glas trwy gynhyrchion a phrofiadau llesiant ee cynhyrchion harddwch a chyfannol a wnaed yn naturiol, therapīau llesiant, bwyd a diod lleol a mwy.

Mae angen i raglen digwyddiadau’r dref ystyried ei lleoliad a’i chysylltiadau â Dyffryn Maes Glas a Mynydd Helygain. Mae angen cefnogi gŵyl gerddororol boblogaidd Well Inn gyda digwyddiadau tymhorol eraill i ddenu trigolion lleol ac ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn. Mae angen i’r celfyddydau, creadigrwydd a diwylliant gael eu gyrru gan y gymuned, ac iddynt gefnogi gwaith celf lleol, arddangosfeydd dros dro, bywiogi mannau masnachol a danddefnyddir, digwyddiadau, gwyliau, a mwy.

- **Integreiddio gwelliannau i’r parth cyhoeddus gyda chod dylunio cynhwysfawr i’r treflun;**
- **Gweithredu rhai o’r argymhellion o’r astudiaeth seilwaith gwyrdd canol trefi;**
- **Datblygu dull cydgysylltiedig o ddeall sut mae marchnadoedd awyr agored, planhigion, dodrefn stryd ac arwyddion yn creu teimlad o le a gweithgarwch o fewn ardal y Stryd Fawr;**
- **Datblygu cynllun buddsoddi ar gyfer marchnadoedd awyr agored sy’n cefnogi mentergarwch lleol, sy’n gydnaws â chynnig canol y dref, ac sy’n cyfeirio at gymorth arall a thyfu busnesau sy’n cychwyn;**
- **Targedu ardaloedd ar gyfer mannau cymdeithasol – byrddau a chadeiriau, blychau planhigion, gorchuddion dros dro, etc;**
- **Datblygu cynllun celfyddydau, creadigrwydd a gweithgarwch diwylliannol sy’n dod â bywyd i ganol y dref trwy fentrau gan y gymuned.**



chris jones rl. creu lleoedd SIRY FFLINT

## CYFLEOEDD LLE – DYFFRYN MAES GLAS YNG NGHANOL Y DREF

Mae gan Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas uchelgais i Barc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas fod yn un o'r deg uchaf o gyrchfannau yng ngogledd Cymru gyda chymysgedd diddorol o brofiadau diwylliannol, amgylcheddol, treftadaeth a hamdden.

Gallai agosrwydd y Ganolfan Ymwelwyr ddeheuol arfaethedig wasanaethu ymwelwyr o Ganol y Dref, gyda'r potensial i gysylltu cyrchfan ymwelwyr newydd ac iddi thema rheilffordd o dan fwa'r bont reilffordd, gan ddefnyddio safle'r hen orsaf a iard nwyddau i gefnogi parth Porth Treffynnon.

Mae angen i arwyddion manwl ar gyfer cyfeirio a dehongli ystyried pyrth allweddol i'r Dyffryn a deall rôl a swyddogaeth canol tref Treffynnon wrth gyrraedd disgwyliadau ymwelwyr. Mae angen i daith yr ymwelydd fod yn gyson mewn ansawdd a bod â chysondeb wrth deithio trwy'r dyffryn.



Mae angen felly i ganol y dref ddatblygu ei chynnig a'i phrofiadau i ymwelwyr i ardal Dyffryn Maes Glas boed y rhain i drigolion lleol, ymwelwyr dydd neu ymwelwyr arosiadau hirach a'r rheini sy'n cerdded ar lwybrau pellter hir megis Llwybr Pererinion Gogledd Cymru. Mae angen i welliannau ffisegol gynnwys rheoli cyrhaeddiad, symud i mewn ac allan o Ddyffryn Maes Glas, rôl gwyrddni yng nghanol y dref i atgyfnerthu cymeriad yn ogystal â pharth cyhoeddus apelgar ac ymarferol.

Mae'r angen i ddathlu treftadaeth canol y dref yn rhan o brofiad Dyffryn Maes Glas sy'n ymwneud â'r dreflun ffisegol, adeiladau allweddol a phobl hanesyddol y dref. Gall digwyddiadau a gwyliau chwarae rhan mewn dod â threftadaeth yn fyw yng nghanol y dref ac i lawr drwy Ddyfryn Maes Glas sy'n ehangu'r profiad a'r gweithgareddau.

Mae angen datblygu amrywiaeth o lety i ymwelwyr sy'n cefnogi economïau dydd a gyda'r nos, yn ogystal â symbylu busnesau newydd trwy farchnadoedd awyr agored adfywiedig, gwyliau llesiant, therapīau cyfannol, a bwyd a diod yn cyflwyno cynnig amrywiol a "lleol". Dylai gweithgarwch cefnogi busnes ganolbwyntio ar gyfleoedd i ddatblygu a hyrwyddo cynhyrchion "llesiant" a chysoni'r rhain â brand cyrchfan Treffynnon trwy gymorth cynlluniau busnes, ymgyrchoedd cyfamserol, digwyddiadau arddangos a stondinau a gymorthdelir mewn marchnadoedd Stryd Fawr.

- **Cefnogi cydgyflanwi strategaeth Dyffryn Maes Glas;**
- **Gweithio gyda'r ganolfan ymwelwyr ddeheuol fel porth i mewn ac allan o ganol y dref;**
- **Datblygu cysylltiadau gwyrdd a hydraidd o ganol y dref ar draws yr A5026;**
- **Deall anghenion y farchnad ymwelwyr o ran cynhyrchion, gwasanaethau a theimlad o le fel y gall mentergarwch lleol ymateb i fylchau yn y farchnad.**



## LLESIANT YN NHREFFYNNON



# CYFLEOEDD POBL – LLESIANT YN Y GYMUNED

Gall datblygu man cyhoeddus bywiog sy'n hygyrch, cysylltiedig, cynhwysol ac addasadwy i bob angen arwain at fyw llesol o ddydd i ddydd.

Gellir cyflawni gweithgarwch allgymorth cymunedol i gynyddu cyfraddau cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol trwy glybiau cerdded, llogi beiciau, prosiectau tyfu cymunedol a thrwy weithgareddau dan do megis ioga, dosbarthiadau ymarferion yn ogystal â champfeydd gwyrdd awyr agored.

Mae Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas yn cynnig adnodd awyr agored lleol sy'n agos i ganol tref Treffynnon a'i gymdogaethau a all cefnogi grwpiau cerdded, rhedeg parc, beicio a gweithgareddau eraill. Mae Parc Fron hefyd yn agos i'r Stryd Fawr a gall gynnig cyfleoedd am weithgarwch rhwng cenedlaethau, ymarferion anffurfiol a gweithgareddau grŵp. Gall y gweithgareddau hyn hefyd gefnogi busnesau canol y dref lle gall grwpiau cerdded / rhedeg lleol gyfarfod ar y diwedd mewn caffis lleol, sefydlu gwyliau cerdded cymunedol a mwy.

Mae cysylltiadau hefyd â grwpiau a sefydliadau cymunedol sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol, gyda rhaglenni cyfeirio at ymarfer corff, cyngor ar ddiet a maeth, benthyca e-feiciau a mwy. Mae swyddogaeth celfyddydau hefyd yn bwysig fel ffurf o therapi llesiant boed hyn trwy ddigwyddiadau, gwyliau neu gymryd rhan mewn crefftau a chreu.

- **Gweithgarwch prosiectau Gogledd Cymru Actif;**
- **Rôl Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas fel adnodd awyr agored ar gyfer gweithgarwch hamdden a drefnir;**
- **Datblygu rhwydweithiau teithio llesol law yn llaw â chyfleoedd cysylltedd;**
- **Gwaith allgymorth cymunedol sy'n cefnogi cyfraddau uwch o gymryd rhan gyda grwpiau sefydledig, yr anodd eu cyrraedd a'r gymuned ehangach sy'n gwella llesiant a chyfleoedd eraill bywyd;**
- **Archwilio ffyrdd i fusnesau canol y dref alluogi llesiant cymunedol trwy eu cynhyrchion, lleoedd a phrofiadau;**
- **Treialu gweithgareddau sy'n rhai isel o ran cost, hygyrch ac sy'n dod â phobl i ganol y dref, megis gweithgareddau seiliedig ar gelf, cerdded, beicio, a lleoedd gwyrddu.**





## CYFLEOEDD POBL – CYSYLLTU ASEDAU'R GYMUNED

Mae gan Dreffynnon amrywiaeth helaeth o grwpiau a sefydliadau cymunedol gweithgar sy'n cynnig cymorth i'w drigolion. Mae rhai wedi eu lleoli yng nghanol y dref, mae eraill ar yr ymylon a rhai i'w cael mewn cymdogaethau yn Pen-y-Maes, Holway ac yn Nyffryn Maes Glas. Maent yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i'r rheini ar incymau isel, cynghori dinasyddion, mynediad at fwyd, cymorth iechyd meddwl, cymorth gwasanaethau teuluol, gweithgarwch i bobl ifanc a chymorth gydag iechyd, llesiant a chyflogadwyedd. Maent hefyd yn lleoedd crefydd, hamdden, chwaraeon a defnydd cymdeithasol a chymunedol ehangach. Caiff rhai eu rhedeg gan y sector cyhoeddus, ymddiriedolaethau a chyrff elusennol a thrwy bartneriaethau cymunedol / sector gwirfoddol eraill.

Mae rôl llesiant yng nghanol y dref yn gynyddol bwysig gydag angen i drigolion ddeall beth sydd ar garreg eu drws, pa weithgareddau a chymorth maent yn eu darparu a sut i gymryd rhan. Mae angen felly i rwydweithio sefydliadau fel bod cydlynu rhwng grwpiau ac osgoi dyblygu. Gan barhau i ymdrin mewn dull amlasiantaethol ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gall dull canolfan canol tref ddod â sgiliau a gwybodaeth at ei gilydd ynghyd â chysylltiadau â'r gymuned ehangach.

Ar lefel ffisegol mae angen i rai asedau ffisegol fod yn fwy cydlynus a dealladwy i bobl gydag angen am well lleoliadau, cysylltiadau, lleoedd parcio a help gyda symudedd. Mae rhai o'r rhain wedi eu clystyru o gwmpas maes parcio Ffordd y Gogledd sy'n cynnwys y Ganolfan Hamdden, hen adeilad y Ganolfan Ieuenctid (bellach Dechrau'n Deg), hwb KIM, campfa Toe2Toe a hefyd Sir y Fflint yn Cysylltu ar y Stryd Fawr. Fel rhan o agwedd ehangach Sir y Fflint at greu lleoedd, mae hefyd yn archwilio ffyrdd o leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol y dref gydag asiantaethau strategol a lleol yn archwilio a ellir ailbwrpasu lleoliad canolog yng nghanol y dref ar gyfer gweithgarwch ymyrraeth gynnar a chymorth llesiant ehangach i'r gymuned.

Mae hefyd rôl allweddol i deithio llesol wrth gysylltu asedau cymunedol ar draws lleoedd fel Treffynnon yn ogystal â thrafnidiaeth gyhoeddus leol hefyd yn cysylltu â chymdogaethau, yn ystod y dydd a gyda'r nos.





- **Datblygu dull o rwydweithio asesdau'r gymuned a lleoliadau ar draws canol y dref;**
- **Datblygu gwell cysylltiadau ffisegol rhwng y clwstwr o asesau cymunedol o gwmpas lle parcio Ffordd y Gogledd;**
- **Parhau â'r astudiaeth ddichonoldeb o ganolfan ymyrraeth ymddygiad gwrth-gymdeithasol ac archwilio a all adeilad Sir y Fflint yn Cysylltu ar y Stryd Fawr ganolbwyntio o'r newydd ar wasanaethau llesiant cymunedol ac ymyrraeth cynnar i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol;**
- **Cysylltu teithio llesol yn ôl ac ymlaen rhwng cymdogaethau a chanol tref Treffynnon a gweithio gyda chwmnïau bysiau ar y ddarpariaeth o wasanaethau lleol.**

# CYFLEOEDD POBL – MEITHRIN MENTERGARWCH

Mae masnachu yng nghanol tref Treffynnon yn golygu heriau ond cyfleoedd hefyd. Er nad yw ei lleoliad mor amlwg â threfi eraill gogledd Cymru, mae ganddi gymuned leol a theyrngar ac mae ganddi'r potensial o fanteisio ar farchnadoedd ymwelwyr â Pharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas, Ffynnon Santes Gwenffrewi, ei safle islaw Mynydd Helygain gyda'i olygfeydd allan dros foryd Afon Dyfrdwy. Mae gan ei Stryd Fawr hefyd gymeriad cryf oherwydd ei hanes Sioraidd a Victoriaidd ac mae ei pharth cyhoeddus yn cynnig digon o le.

Gall yr holl nodweddion hyn gadarnhau profiad o ganol tref sy'n edrych tua'i gorffennol gyda diwydiannau mwyngloddio a masnach cotwm, ac sy'n parhau â'i thema llesiant ac yn lle'r ydych yn teithio iddo, trwy bererindod a theithiau cerdded a llwybrau eraill. Mae cyfleoedd i fusnesau lleol fanteisio ar y cynhyrchion hyn, gyda chefnogaeth





gan asiantaethau cyhoeddus a lleol o ran seilwaith ffisegol, marchnata a hyrwyddo a helpu gyda datblygu a thwf achos busnes. Mae bylchau posibl yn cynnwys llety diwasanaeth, cynhyrchion ffordd o fyw / hamdden, cynnyrch a wneir yn lleol, tai bwyta gyda phwyslais ar goginio a chynhyrchu cartref yn ogystal â'r sector creadigol gydag eitemau megis serameg, gemyddion, dillad a busnesau economi werdd / economi gylchol.

Mae angen adnabod ac annog busnesau gwledig micro a bach sydd eisiau archwilio llwybrau costau isel i'r farchnad gyda mecanweithiau cymorth ar gyfer llogi stondinau marchnad, lleoedd o fewn unedau cyfamserol, digwyddiadau thematig a gosod cynhyrchion mewn canolfannau ymwelwyr a mwy. Mae creu ymgyrch "llesiant" sy'n cysylltu busnesau o gyffelyb fryd yn cyfleu màs critigol o fusnesau ac yn cychwyn meithrin diddordeb a chwilfrydedd yn Nhreffynnon.

- **Adeiladu ar gyrchfan Treffynnon, gan archwilio "llesiant" y lle;**
- **Ymchwilio a deall busnesau gwledig a threfol, eu huchelgeisiau a chynlluniau, a deall rhwystrau rhag twf a rôl canol trefi fel Treffynnon;**
- **Datblygu cyfres o atebion ffisegol sy'n fentrau blasu, brics a mortar, gweithgarwch manwerthu ar y cyd a mwy;**
- **Datblygu gweithgareddau marchnata a hyrwyddo megis cerdyn Llesiant Treffynnon, ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a phrint, cysylltiadau â llwybrau, mannau cymdeithasol ac sy'n ffurfio rhan o brofiad Dyffryn Maes Glas.**



## CYFLEOEDD POBL – GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Mae Treffynnon yn arddangos rhwydwaith gweithgar o grwpiau a sefydliadau lleol sydd â'r gymuned yn flaenoriaeth i'w gwerthoedd a'u gweithgareddau. Boed hyn yn canolbwyntio ar lesiant, hamdden, yr amgylchedd, pobl ifanc, cymorth i deuluoedd, gofal bugeiliol yn ogystal â datblygiad dinesig a threfol, maent i gyd yn hygyrch i drigolion lleol. Mae sefydliadau partner mwy hefyd yn chwwarae rhan mewn darparu gwasanaethau ehangach yn y dref sydd â phwyslais lleol yn ogystal â chyswllt â chynlluniau a buddsoddiadau ar sail ardal.

Er mwyn sicrhau bod gweithgarwch a buddsoddiadau seiliedig ar le yn cael effaith a'u bod yn gynaliadwy, mae angen i bartneriaethau strategol a lleol fod wrth law er mwyn sicrhau bod pob gwybodaeth, profiad, sgiliau ac ymdrech yn anelu i'r cyfeiriad iawn. Daw'r angen i ganolbwyntio ar lesiant ehangach canol y dref trwy sgyrsiau sy'n trafod yr angen am le i gyfarfod, rhannu a sianelu meddylfryd a chydgyflawni.

- **Datblygu camau gweithredu seiliedig ar weithio mewn partneriaeth sy'n gwrando ar anghenion y gymuned, cysoni adnoddau a phartneriaid â syniadau a'u datblygu ar y cyd, a sicrhau a rheoli buddsoddiadau yng nghanol y dref.**



## GWELEDIGAETH O LWYDDIANT

Mae'r angen i ddeall sut i ddiffinio llwyddiant yn bwysig pan ydych chi'n galluogi a gweithredu newid mewn lle fel Treffynnon. Mae'n helpu deall y canlyniadau'r ydych yn eu cyrchu a'r broses sydd arnoch ei hangen er mwyn eu cyrraedd. Mae gweledigaeth o lwyddiant yn dda hefyd ar gyfer symbylu ac uno o gwmpas nod cyffredin, gan adeiladau ymddiriedaeth a pherthynas. Mae'n bwysig hefyd gallu dangos i'r sefydliadau hynny'r ydych yn ariannu prosiectau eich bod yn cyrraedd eich allbynnau a chanlyniadau a dangos enillion ar fuddsoddiad. Dengys y diagram enghreifftiau o allbynnau a chanlyniadau yn ôl thema, sy'n ffurfio rhan o fframwaith gwerthuso y byddai partneriaeth ar sail lle yn ei ddefnyddio i fonitro cynnydd.

### Pyrth i'r Dref

#### ALLBYNNAU

- Dwysedd cerbydau (cyfrifiadau) ar yr A5026 a'r B5432
- Cyfraddau meddiant y maes parcio ar Ffordd y Gogledd
- Cyfanswm arwynebedd o seilwaith gwyrdd a ychwanegwyd neu a wellawyd o ganlyniad i gymorth
- Nifer o symudiadau cerdded/beicio
- Metrau llinellol o lwybrau teithio llesol a grewyd neu a wellawyd
- Nifer o deithwyr bws
- Cyfrifiad ansawdd aer
- Nifer cerddwyr o faes parcio Ffordd y Gogledd
- Cyfradd eiddo gwag
- Amrywiaeth dibenion a gweithgareddau canol y dref
- Amser a dreulir gan ddefnddwyr canol y dref
- Gwariant defnyddwyr canol y dref
- Bodlonrwydd â chanol y dref
- Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr o ganol y dref

#### CANLYNIADAU

- Gwell profiad i ymwelwyr a defnyddwyr
- Mwy o synnwyr o le a chyrchfan leol
- Mwy o gyfleoedd i archwilio asedau canol y dref a manteisio arnynt
- Mwy o deimlad o groeso a chydlyniant cymunedol
- Twf a chynaliadwyedd economaidd lleol

## Bywiogi a Gwyrddu Canol y Dref

### ALLBYNNAU

- Cyfanswm metrau sgwâr o'r parth cyhoeddus a wellhawyd
- Cyfanswm arwynebedd o seilwaith gwyrdd a ychwanegwyd neu a wellhawyd o ganlyniad i gymorth
- Nifer o adeiladau canol y dref a adnewyddwyd
- Nifer o fusnesau a gefnogwyd
- Cyfradd presenoldeb cerddwyr
- Cyfradd eiddo gwag
- Amrywiaeth dibenion a gweithgareddau canol y dref
- Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
- Gwariant defnyddwyr canol y dref
- Bodlonrwydd â chanol y dref
- Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr o ganol y dref
- Cyfanswm arwynebedd o seilwaith gwyrdd a ychwanegwyd neu a wellhawyd o ganlyniad i gymorth
- Nifer o weithgareddau cymunedol gwyrdd a gefnogwyd
- Nifer o bobl leol yn cymryd rhan mewn gweithgarwch gwyrddu
- Nifer o grwpiau cymunedol yn cymryd rhan
- Nifer o bobl yn profi mwy o fuddion iechyd a llesiant
- Cyfrifiad ansawdd aer

### CANLYNIADAU

- Gwell profiad i ymwelwyr a defnyddwyr
- Mwy o deimlad o le a chyrchfan leol
- Gwell symudedd ar draws yr holl gymuned
- Gwell iechyd a llesiant i'r gymuned leol
- Gwell gwytnwch rhag newid hinsawdd
- Twf economaidd a chynaliadwyedd lleol
- Lefelau uwch o fioamrywiaeth leol
- Lleihau anghydraddoldeb iechyd a llesiant
- Agor llwybrau at ddysgu, cyflogaeth a gweithgareddau eraill

## Cysylltiadau i'r Stryd Fawr

### ALLBYNNAU

- Nifer o symudiadau cerdded/beicio
- Metrau llinellol o lwybrau teithio llesol a grewyd neu a wellhawyd
- Cynnydd mewn defnydd o lwybrau pellter hir (Llwybr Wat)
- Nifer o ymwelwyr dydd cysylltiedig â phrofiad Dyffryn Maes Glas
- Nifer o deithwyr bws
- Cyfrifiad ansawdd aer
- Cyfradd presenoldeb cerddwyr
- Cyfradd eiddo gwag
- Amrywiaeth o ddibenion a gweithgareddau canol y dref
- Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
- Gwariant defnyddwyr canol y dref
- Bodlonrwydd â chanol y dref
- Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr o ganol y dref

### CANLYNIADAU

- Mwy o nawdd, gweithgarwch a gwariant gan y gymuned
- Cynnydd yng ngweithgarwch ymwelwyr
- Mwy o gyfleoedd i grwydro a threulio amser yng nghanol y dref
- Mwy o deimlad o le a chyrchfan leol
- Gwell llesiant economaidd a chymdeithasol
- Mwy o deimlad o ddiogelwch cymunedol oherwydd mwy o weithgarwch ar y stryd
- Mwy o deimlad o groeso a chydlyniant cymunedol

## Bywiogi'r Stryd Fawr

### ALLBYNNAU

- Nifer o ddigwyddiadau, marchnadoedd a gweithgareddau stryd
- Nifer o fusnesau lleol a gefnogwyd
- Nifer o fannau cymdeithasol a dargedwyd
- Amrywiaeth dibenion a gweithgareddau canol y dref
- Cyfradd eiddo gwag
- Twf busnesau lleol
- Nifer o bobl sy'n economaidd weithgar
- Nifer o bobl sy'n gyflogedig
- Cyfradd presenoldeb cerddwyr
- Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
- Gwariant defnyddwyr canol y dref
- Bodlonrwydd â chanol y dref
- Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr o ganol y dref

### CANLYNIADAU

- Cynnydd mewn gweithgarwch stryd
- Mwy o gyfleoedd i grwydro a threulio amser yng nghanol y dref
- Mwy o deimlad o le a chyrchfan leol
- Gwell llesiant economaidd a chymdeithasol lleol
- Mwy o deimlad o groeso a chydlyniant cymunedol
- Adeiladu hyder, teyrngarwch a thwf cynaliadwy

## Dyffryn Maes Glas

### ALLBYNNAU

- Nifer o ymwelwyr dydd i ganol y dref a Dyffryn Maes Glas
- Nifer o ganolfannau ymwelwyr newydd
- Swm o wariant uniongyrchol
- Nifer o fusnesau presennol yn derbyn cymorth ariannol
- Nifer o fusnesau'n derbyn cymorth busnes / hyfforddiant / mentora
- Nifer o fusnesau newydd yn cychwyn
- Nifer o ymgyrchoedd marchnata

### CANLYNIADAU

- Profiad gwell ac integredig i ymwelwyr i Ddyffryn Maes Glas a chanol tref Treffynnon
- Mwy o amrywiaeth mewn dibenion, cynhyrchion a phrofiadau yng nghanol y dref
- Llesiant yn rhan hanfodol o hunaniaeth a neges y dref
- Treffynnon yn dod yn gyrchfan i bawb

## Llesiant yn y Gymuned

### ALLBYNNAU

- Metrau llinellol o lwybrau teithio llesol a grewyd neu a wellhawyd
- Mwy o gymryd rhan mewn cerdded a beicio
- Nifer o bobl leol yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol awyr agored gan ddefnyddio seilwaith gwyrdd
- Nifer o symudiadau cerdded/beicio
- Metrau llinellol o lwybrau teithio llesol a grewyd neu a wellhawyd
- Nifer o grwpiau cymunedol yn cymryd rhan
- Nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau llesiant
- Nifer o bobl yn profi mwy o fuddion iechyd a llesiant
- Nifer o fusnesau canol y dref sy'n gydnaws â gweithgareddau a phrofiadau llesiant

### CANLYNIADAU

- Lleihad mewn anghydraddoldeb iechyd a llesiant
- Gwell cydlyniant cymunedol
- Agor llwybrau i ddysgu, cyflogaeth a gweithgareddau eraill
- Llesiant yn rhan hanfodol o hunaniaeth a neges y dref

## Cysylltu Asedau'r Gymuned

### ALLBYNNAU

- Nifer o sefydliadau cymunedol presennol a gefnogwyd
- Nifer o grwpiau neu sefydliadau newydd a ffurfiwyd
- Nifer o wirfoddolwyr yn cymryd rhan ym mywyd y gymuned
- Nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau rhwydweithio
- Nifer o brosiectau cymunedol a gefnogwyd
- Nifer o sefydliadau'n derbyn cymorth anariannol
- Nifer o bobl â gwell cynhwysiant cymdeithasol
- Nifer o weithgareddau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gafodd eu riportio
- Nifer o brosiectau partner

### CANLYNIADAU

- Gwella capasiti o fewn y gymuned leol
- Mwy o weithio a rhwydweithio rhwng grwpiau a'i gilydd
- Gwell gweithio mewn partneriaeth
- Asedau a lleoliadau lleol yn gynaliadwy ac yn tyfu
- Sefydliadau yn fwy hyfyw a chynaliadwy

## Meithrin Mentergarwch

### ALLBYNNAU

- Nifer o fusnesau lleol canol y dref a gefnogwyd
- Nifer o fusnesau micro i fach a chanolig newydd a gefnogwyd
- Nifer o swyddi (cyfwerth â llawn amser /rhan amser) a gefnogwyd / a grewyd
- Nifer o gynhyrchion newydd a ddatblygwyd
- Nifer o fentrau busnes ffisegol
- Nifer o weithgareddau marchnata a hyrwyddo
- Nifer o ddigwyddiadau, gwyliau a gweithgareddau
- Cyfradd presenoldeb cerddwyr
- Cyfradd eiddo gwag
- Amrywiaeth dibenion a gweithgareddau canol y dref
- Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
- Gwariant defnyddwyr canol y dref
- Bodlonrwydd â chanol y dref
- Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr o ganol y dref

### CANLYNIADAU

- Cynnydd yng ngweithgarwch defnyddwyr ac ymwelwyr yng nghanol y dref
- Mwy o gyfleoedd i grwydro a threulio amser yng nghanol y dref
- Mwy o deimlad o le a chyrchfan leol
- Gwell llesiant economaidd a chymdeithasol lleol
- Mwy o deimlad o groeso a chydlyniant cymunedol



chris jones
creu lleoedd SIR Y FFLINT

## Gweithio mewn Partneriaeth

### ALLBYNNAU

- Nifer o grwpiau a sefydliadau cymunedol a gefnogwyd
- Nifer o sesiynau rhwydweithio
- Nifer o brosiectau / mentrau / cynlluniau a ddatblygwyd ac a gyflawnwyd

### CANLYNIADAU

- Mwy o gydweithio rhwng grwpiau a sefydliadau cymunedol a'i gilydd
- Trosoli cyllid ac adnoddau i mewn
- Gweithio a rhwydweithio cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar lesiant



# FFYRDD O WEITHIO

**Datblygu a Gweithredu**

Mae gweithredu'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn dibynnu ar ddull partneriaeth lle mae sefydliadau strategol a lleol yn dod â'u hamcanion unigol eu hunain i ffurfio set o gynigion ar y cyd a fydd yn elwa ar ei gilydd, ac yn bwysicach, o fudd i ganol tref Treffynnon a'r cymdogaethau o'i gwmpas. Mae'r cyfleoedd sydd o fewn y weledigaeth a'r strategaeth hon yn gofyn am gyfuniadau gwahanol o bartneriaid, adnoddau ac amserlen ar gyfer eu datblygu a'u gweithredu.

Mae ffactorau allweddol gweithredu llwyddiannus wrth Greu Lleoedd yn cynnwys:

- Deall cryfderau unigol gan gynnwys gwybodaeth, arbenigedd ac asedau ffisegol a sut y gellir cydgyfeirio'r rhain.
- Cyfathrebu a chydgysylltu ar lefel strategol ac wrth weithredu.
- Gweithio o fewn cod dylunion cyffredin sy'n sicrhau cysondeb mewn amgylchedd adeiledig a pharth cyhoeddus ac sy'n cyrraedd targedau'n ymwneud â newid hinsawdd a chynaliadwyedd.
- Cysylltu anghenion trigolion lleol ag amrywiol lwybrau at ddysgu, iechyd a llesiant, gweithgarwch corfforol a chyflogaeth.
- Cyflwyno hunaniaeth unedig i le fel Treffynnon, gan barchu hunaniaeth sefydliadau unigol.

**Gweithio mewn Partneriaeth**

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd eisoes wedi cychwyn dull partneriaeth o weithio ers iddo adnabod yr angen am dull cydweithredol o Greu Lleoedd mewn gwahanol ganol trefi yn Sir y Fflint ym mis Mehefin 2022.


Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Lleoedd, sy'n rhan o strwythur llywodraethu'r Grŵp Adferiad Economaidd. Diben y grŵp yw meddwl, cynllunio a gweithredu blaenoriaethau mewn modd cydlynus o fewn canol tref o ran yr amgylchedd adeiledig gan gynnwys ailddatblygu neu wella adeiladau, gwelliannau i'r parth cyhoeddus, seilwaith gwyrdd a mentrau teithio llesol. Mae gan y grŵp rôl hefyd wrth drafod a chytuno ar flaenoriaethau ariannu, gan gynnwys gwneud penderfyniadau wrth ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael i'r Cyngor i weithredu Creu Lleoedd.

Cafodd adolygiad o'r Grŵp Lleoedd ei gwblhau, a chanfuwyd cyfleoedd i wella'i effeithiolrwydd cyffredinol gan gynnwys: i) Gwella cydweithio a chydlynu Creu Lleoedd ar draws y cyngor ii) datblygu rhaglen waith flynyddol sy'n edrych yn ôl ar weithgarwch creu lleoedd sy'n cael ei arwain gan wahanol wasanaethau / swyddogion ar draws y cyngor a gwella'r ffordd o fonitro ac adrodd gweithgarwch Creu Lleoedd a'r graddau mae wedi gweithredu'n unol â Chynlluniau Creu Lleoedd a gymeradwywyd.

Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu grŵp gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n ymestyn dros amrywiaeth o gyrff a sefydliadau allanol yn bennaf sydd ag elfen o ganolbwyntio ar bobl yn eu darpariaeth. Caiff rhai gwasanaethau mewnol Cyngor Sir y Fflint eu cynrychioli hefyd. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, ymysg sefydliadau eraill.

Wrth dyfu'r dull partneriaeth hwn, mae angen i'r Cynllun Creu Lleoedd ystyried grwpiau cymunedol lleol ar lawr gwlad yn ogystal â'r sector busnes lleol, fel bod cynghrair deg yn cael ei ffurfio rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol / gwirfoddol. Bydd angen trafod pellach rhwng sefsydliadau ynghylch ffurf y bartneriaeth hon, fel bod ganddi ddiben, nodau ac amcanion, y raddfa iawn o weithredu, gwerthoedd a ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt. Byddai angen cynllunio partneriaeth o'r fath fel ei bod yn:

- Cefnogi, galluogi a chydgyflawni gweithredu ar sail lle yn Nhreffynnon
- Darparu lle cyffredin i sefydliadau rannu syniadau ac atebion
- Hyrwyddo Treffynnon o fewn a'r tu allan i'r gymuned leol, a
- Gwneud y lle yn well ar hyn o bryd ac i genedlaethau'r dyfodol.





creu lleoedd SIRYFFLINT

chris jones

Roberts Limbrick